



Symudedd a sgiliau'r gweithlu yn sector adeiladu'r DU 2025

Adroddiad ymchwil

Mawrth 2026



Tabl cynnwys

Crynodeb gweithredol.....	4
Cyflwyniad	4
Proffil y sampl	4
Hanes gwaith.....	5
Cymwysterau a sgiliau	6
Symudedd daearyddol	9
Negeseuon allweddol	13
Cyflwyniad.....	15
Nodau ac amcanion	15
Dull.....	15
Proffil gweithwyr safle adeiladu	19
Cyflwyniad	19
Demograffeg bersonol.....	19
Proffil galwedigaethol	28
Hanes gwaith	37
Amser yn y sector.....	37
Hanes cyflogaeth cyn adeiladu	39
Newid a dilyniant galwedigaethol o fewn adeiladu	42
Cynlluniau gyrfa yn y dyfodol	44
Cymwysterau a sgiliau.....	49
Trosolwg	49
Cardiau a thystysgrifau sgiliau adeiladu	49
Cymwysterau adeiladu a ddelir.....	57
Math o gymwysterau adeiladu a ddelir	60
Hyfforddiant ffurfiol ychwanegol.....	61
Cymwysterau a hyfforddiant goruchwyllo a rheoli.....	65
Lefelau sgiliau cyffredinol.....	70
Symudedd daearyddol.....	72
Trosolwg	72
Hanes gwaith yn y rhanbarth/gwlad presennol	72

Rhanbarth/gwlad a weithiwyd ynddi cyn y safle presennol.....	79
Ardal wreiddiol gweithwyr	81
Teithio i'r safle	83
Defnydd o lety dros dro	92
Cyfnod ar y safle a newid.....	93
Symudedd is-sector a sector.....	95
Trosolwg	95
Symudedd is-sector.....	95
Gadael y sector	99
Crynodeb o weithlu adeiladu'r DU 2025	99
Heriau'r gweithlu.....	99
Sefydlogrwydd yn y gweithlu.....	101
Rhai dangosyddion o newid.....	102

Crynodeb gweithredol

Cyflwyniad

Comisiynodd CITB *BMG Research* i gynnal Arolwg Symudedd y Gweithlu Adeiladu 2025, sy'n adeiladu ar arolygon blaenorol a gynhaliwyd yn 2022, 2018/2019, 2015, 2012, 2007, a 2005. Cynhaliwyd cyfweiliadau wyneb yn wyneb, a nifer fach o arolygon papur gyda 3,611 o weithwyr adeiladu sy'n ymgymryd â rolau corfforol – hynny yw nad yw'n weithwyr coleri gwynion – ar safleoedd ledled y DU.

Proffil y sampl

Mae bron pob un (96%) o weithwyr adeiladu yn y sampl yn wrywod. Mae bron i hanner (44%) y gweithwyr adeiladu a gyfwelwyd yn yr arolwg yn 34 oed ac iau, sy'n gyfran uwch o'i gymharu â phoblogaeth y DU gyfan (34%). Dim ond 6% o weithwyr adeiladu sydd yn 60 oed neu'n hŷn.

Ar y cyfan, mae 11% o'r gweithlu yn cynrychioli grŵp ethnig lleiafrifol, o'i gymharu â chyfradd uwch o 16% ym mhoblogaeth 16 i 64 oed y DU gyfan. Yn ôl rhanbarth/gwlad, De-ddwyrain Lloegr sydd â'r gyfran uchaf o weithwyr o grŵp ethnig lleiafrifol (23%), ac am y tro cyntaf dros yr amser y cynhaliwyd yr arolwg mae cyfran uwch nag yn Llundain (21%), ac yn uwch na'r gyfradd o 14% yn y rhanbarth.

Mae chwarter (24%) o weithwyr adeiladu o wlad arall yn wreiddiol, gan gynyddu i 54% yn Llundain, 46% yn Ne-ddwyrain Lloegr a 29% yn Nwyrain Lloegr.

Mae bron i bedwar o bob pump (77%) o weithwyr adeiladu yn dal pasbort y DU, mae tua un o bob saith (15%) yn dal pasbort ar gyfer gwlad arall, mae 3% yn nodi nad oes ganddynt basbort, gyda'r 5% sy'n weddill yn well ganddynt beidio â dweud.

Mae tri chwarter (76%) o weithwyr adeiladu wedi byw yn y DU drwy gydol eu hoes, ac mae un o bob pump (18%) arall wedi byw yn y DU am fwy na 5 mlynedd.

Llafurwyr/gweithredwyr cyffredinol sy'n cyfrif am y gyfran fwyaf o'r sampl (29%), ac yna rheolwyr safle (13%) a gosodwyr brics, seiri coed/seiri dodrefn, gweithredwyr peiriannau/peirianwaith a'r rhai mewn crefftâu technegol (7% i gyd).

Mae mwy na chwarter (28%) o'r rhai a gyfwelwyd yn cyflawni rôl oruchwylio neu reoli ar eu safleoedd (o'i gymharu â 28% yn 2022, 30% yn 2018/19, 25% yn 2015 a 17% yn 2012).

Mae bron i dri o bob pump (59%) o weithwyr adeiladu a gyfwelwyd ar gyfer yr arolwg yn cael eu cyflogi'n uniongyrchol gan gwmni, sy'n gyfran sylweddol uwch nag yn 2022 (48%), a'r lefel uchaf ers 2012. Mae cyfran y gweithwyr hunangyflogedig wedi gostwng (33%, o'i gymharu â 42% yn 2022), ac mae llai nag un o bob deg (7%) yn gweithio i asiantaeth (o'i gymharu â 9% yn 2022). Mae gweithwyr o grŵp ethnig lleiafrifol yn sylweddol fwy tebygol na gweithwyr o dras ethnig wen o weithio i asiantaeth gyflogaeth (19% o'i gymharu â 6%). Yn ôl rhanbarth/gwlad, mae cyfran y gweithwyr sy'n cael eu cyflogi'n uniongyrchol yn amrywio o 97% yn y Gogledd-ddwyrain, i lawr i ddim ond 35% yn y De-ddwyrain.

Mae bron i dri o bob deg (29%) o weithwyr adeiladu a gyfwelwyd yn cael eu cyflogi dros dro, yn hytrach na pharhaol. Yn ôl rhanbarth/gwlad, mae cyfran y gweithwyr adeiladu sy'n gweithio dros dro yn uwch na'r cyfartaledd yng Ngorllewin Canolbarth Lloegr (52%), y De-ddwyrain (45%), Dwyrain Lloegr (37%), Gogledd Iwerddon (36%) a Swydd Efrog a'r Humber (34%).

Mae bron i ddwy ran o dair (64%) yn gweithio rhwng 40 a 49 awr yr wythnos, tra bod bron i un o bob pump yn gweithio mwy na 50 awr yr wythnos (17%), gan godi i 26% yn y De-ddwyrain a Swydd Efrog a'r Humber.

Hanes gwaith

Amser yn y sector

Mae mwy na chwarter (28%) o'r holl weithwyr adeiladu wedi gweithio yn y diwydiant am o leiaf 20 mlynedd a dros hanner wedi gwneud hynny am 10+ mlynedd (52%).

Mae tri chwarter (78%) o weithwyr adeiladu wedi gweithio o fewn y diwydiant adeiladu yn unig, gan gynnwys 65% sydd wedi gwneud hynny fwy neu lai yn barhaus, heb gyfnodau allan o waith.

Swyddi blaenorol nad ydynt yn ymwneud ag adeiladu

Ar y cyfan, roedd 15% o weithwyr adeiladu yn gweithio mewn sector arall cyn dechrau gweithio ym maes adeiladu, ac ymhlith y grŵp hwn, y sectorau y buont yn gweithio ynddynt cyn hynny oedd cyfanwerthu a manwerthu (18%), llety (15%), gweithgynhyrchu (14%) a chludiant a storio (13%).

O ran y rolau swyddi a ddelir gan weithwyr adeiladu mewn sectorau eraill yn flaenorol, y gyfran uchaf oedd mewn galwedigaethau crefftau medrus (20%) a galwedigaethau gweinyddu elfennol a gwasanaethu (27%).

Newid galwedigaethau o fewn y sector adeiladu

Ar y cyfan, mae 26% o'r holl weithwyr adeiladu wedi gweithio mewn mwy nag un grefft neu alwedigaeth adeiladu wrth weithio yn y diwydiant adeiladu, gostyngiad sylweddol o'i gymharu â'r 35% a wnaeth hynny yn 2022.

Mae gweithwyr adeiladu sydd wedi gweithio mewn o leiaf un rôl/galwedigaeth arall yn fwyaf tebygol o fod wedi gweithio fel llafurwr/gweithredwr cyffredinol o'r blaen (35%), tra bod 15% wedi gweithio fel saer coed/saer dodrefn o'r blaen a 9% fel gosodwr brics.

Ar y cyfan, mae saith o bob deg (70%) yn teimlo y byddant yn bendant, neu ei bod yn debygol iawn y byddant yn dal i fod eisiau gweithio yn y diwydiant adeiladu ymhen 5 mlynedd. Hoffai tri chwarter (77%) barhau yn yr un grefft neu alwedigaeth, tra byddai 6% yn hoffi newid eu crefft neu alwedigaeth a byddai 4% yn hoffi gadael y diwydiant.

Mewn fersiynau blaenorol o'r arolwg, ymhlith y rhai a hoffai newid crefft neu alwedigaeth, dywedodd y gyfran uchaf y byddent yn hoffi bod yn rheolwr safle (25% yn 2022). Fodd bynnag, yn 2025, mae hyn wedi gostwng i 7%, a'r grefft/galwedigaeth a grybwyllir amlaf bellach yw gosodwr brics (17%), ac yna saer coed/saer dodrefn (15%), gyda chrefftau/galwedigaethau eraill yn cael eu crybwyll gan lai nag un o bob deg.

Fel yr oedd yn wir yn 2022, mae dau o bob tri (68%) o weithwyr adeiladu a hoffai newid crefft neu alwedigaeth yn credu y bydd angen hyfforddiant neu gymwysterau pellach arnynt i wneud y math arall hwn o waith, cyfran is nag yr oedd yn wir yn 2018/19 (87%) ac yn 2015 (77%).

Y rheswm a grybwyllir amlaf dros fod eisiau newid crefft neu alwedigaeth yw'r disgwyliad y byddent yn cael eu talu'n well (60%), ac yna'r awydd i ddefnyddio eu sgiliau/galluoedd yn well (42%). Mae chwarter (25%) eisiau mwy o gyfrifoldeb ac mae un o bob pump (21%) yn credu y bydd yn llai corfforol.

Cymwysterau a sgiliau

Cardiau/tystysgrifau sgiliau

Mae'r mwyafrif helaeth (93%) o'r holl weithwyr adeiladu yn nodi bod ganddynt gerdyn neu dystysgrif sgiliau (e.e. CSCS neu CSR), sy'n cyfateb i 2022 (93%), ond yn parhau i fod i lawr ar y 97% a wnaeth hynny yn 2018/19 ac mewn arolygon cynharach.

Mae bron pob gweithiwr yn y De-ddwyrain (97%), y Gorllewin Canolbarth (96%) a'r Gogledd-orllewin (95%) yn nodi bod ganddynt gerdyn, tra bod y gyfran hon yn gostwng i 89% yn y Gogledd-ddwyrain, y De-orllewin ac yn yr Alban.

Mae gweithwyr iau a'r rhai sydd wedi gweithio yn y diwydiant adeiladu am lai na blwyddyn (81% yn y ddau achos) yn llai tebygol o ddal cerdyn/tystysgrif sgiliau, ond nid oes llawer o wahaniaeth rhwng gweithwyr ar draws grwpiau oedran hŷn a gyda gwahanol hydoedd o brofiad (dros flwyddyn) yn y duedd i ddal cerdyn neu dystysgrif sgiliau. O ran y math o gerdyn/tystysgrif sgiliau a ddelir, CSCS yw'r un a ddelir amlaf yn gyffredinol (84%), ac yng Ngogledd Iwerddon mae'r rhan fwyaf (92%) yn dal y cerdyn/tystysgrif CSR.

Cymwysterau penodol i adeiladu

Ar y cyfan, dywedodd tri chwarter (75%) o'r holl weithwyr adeiladu a holwyd nad oedd ganddynt unrhyw gymwysterau ffurfiol pan ddechreuon nhw weithio yn y diwydiant adeiladu gyntaf, sy'n unol â'r lefelau a welwyd yn 2018/19 (72%) a 2015 (75%).

Mae'r gyfran a ddywedodd fod ganddynt gymwysterau ffurfiol pan ddechreuon nhw weithio yn y diwydiant adeiladu gyntaf yn parhau'n uwch ymhlith gweithwyr iau (27% o'r rhai o dan 25 oed, o'i gymharu â 20% o'r rhai 25+ oed).

Yn ôl crefft/galwedigaeth gyfredol, mae cyfran y gweithwyr a ddechreuodd eu gyrfaedd adeiladu heb unrhyw gymwysterau ffurfiol ar ei huchaf ymhlith towyr (87%),

plastrwyr (86%), gweithredwyr peiriannau/peirianwaith (85%), sgaffaldwyr (84%), llafurwyr/gweithredwyr cyffredinol (83%) a'r rhai mewn crefftiau eraill (88%).

I'r gwrthwyneb, mae'r rhai mewn crefftiau technegol (34%), rheolwyr safle (32%), trydanwyr (31%) a seiri coed/seiri dodrefn (29%) yn fwy tebygol na'r cyfartaledd o adrodd bod ganddynt gymwysterau ffurfiol pan ddechreuon nhw yn y diwydiant gyntaf.

Ar y cyfan, mae gan 52% o'r holl weithwyr adeiladu ryw fath o gymhwyster sy'n gysylltiedig ag adeiladu, ac mae hyn yn cynyddu o 38% o'r rhai 16 i 19 oed i 61% o'r rhai 45 oed neu'n hŷn. Mae gweithwyr hunangyflogedig yn fwy tebygol na'r cyfartaledd o feddu ar gymhwyster (60%).

Mae cyfran y gweithwyr sydd â chymwysterau sy'n gysylltiedig ag adeiladu yn uwch na'r cyfartaledd ymhlith rheolwyr safle (81%), crefftiau technegol (73%), plymwyr (72%), trydanwyr (70%), gosodwyr brics (63%), seiri coed/seiri dodrefn (61%) a gweithredwyr peiriannau/peirianwaith (58%).

Fel mewn blynyddoedd blaenorol, y cymwysterau sydd fwyaf tebygol o fod gan weithwyr adeiladu yw cymwysterau NVQ/SVQ (38% o'r holl weithwyr).

Mae gan un o bob deg (8%) o weithwyr adeiladu gymwysterau *City & Guilds*, tra bod gan un o bob ugain (5%) brentisiaeth neu radd bellach.

Anghenion sgiliau sylfaenol

Yn gyffredinol, mae un o bob pump (20%) o weithwyr yn credu y byddent yn elwa o ryw fath o hyfforddiant mewn sgiliau sylfaenol, sy'n cyfateb â 2022 (19%). Mae'r anghenion sgiliau penodol hefyd yn cyd-fynd yn fawr iawn â 2022, a welodd gynnydd dros 2018/19, gydag un o bob deg (10%) yn credu y byddent yn elwa o hyfforddiant mewn darllen, a chyfran debyg mewn siarad Saesneg (9%), ysgrifennu (8%) a mathemateg (8%). Dim ond 2% sy'n sôn am angen am hyfforddiant mewn sgiliau digidol.

Y rhai o dan 25 oed sydd fwyaf tebygol o nodi bod angen hyfforddiant mewn sgiliau sylfaenol – 32% o'r rhai 16 i 19 oed a 28% o'r rhai 20 i 24 oed. Mae'r ddau grŵp oedran iau hyn fwyaf tebygol o sôn am angen hyfforddiant mewn mathemateg (18% a 14% yn y drefn honno), ond mae o leiaf un o bob deg o'r ddau grŵp yn nodi bod angen hyfforddiant ym mhob un o'r sgiliau eraill, ac eithrio sgiliau digidol.

Astudiaeth bresennol ar gyfer cymwysterau

Ar y cyfan, mae un o bob deg (9%) o weithwyr adeiladu ar hyn o bryd yn gweithio tuag at gymwysterau ffurfiol sy'n berthnasol i'r diwydiant adeiladu, sef y lefel isaf a adroddwyd ers 2012 (13% yn 2022, 15% yn 2018/19, 12% yn 2015 ac 11% yn 2012).

Fel mewn arolygon blaenorol, mae'r tebygolrwydd bod gweithwyr yn gweithio tuag at gymwysterau ar hyn o bryd yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd ymhlith y gweithwyr ieuengaf (43% o bobl 16 i 19 oed a 18% o bobl 20 i 24 oed). Fodd bynnag, ymhlith y rhai 20 i 44 oed y gwelwyd y gostyngiadau mwyaf: mae 18% o bobl 20 i 24 oed yn gweithio tuag at gymwysterau ar hyn o bryd o'i gymharu â 24% yn 2022, ac mae 7% o bobl 25 i 44 oed yn gwneud hynny, o'i gymharu ag 11% yn 2022.

Mae amrywiadau hefyd yn amlwg yn ôl rôl swydd bresennol, gyda thrydanwyr (21%), gosodwyr brics (17%) a rheolwyr safle (12%) yn fwy tebygol na'r cyfartaledd a llafurwyr/gweithredwyr cyffredinol (3%) yn llai tebygol na'r cyfartaledd o fod yn gweithio tuag at gymwysterau ar hyn o bryd.

Hyfforddiant goruchwyllo/rheoli

Ymhlith y rhai nad ydynt yn cyflawni rolau goruchwyllo/rheoli ar hyn o bryd ac nad ydynt wedi cael y rôl hon o'r blaen, mae 15% eisiau dod yn oruchwylwr neu'n rheolwr yn y dyfodol, gan barhau â'r dirywiad ers 2018/19, lle'r oedd 24% eisiau gwneud hynny. Mae 5% arall wedi cael rôl goruchwyllo/rheoli o'r blaen ac eisiau dychwelyd i'r statws hwnnw.

Mae un o bob wyth (12%) o'r holl weithwyr adeiladu nad ydynt yn rheolwyr/goruchwylwyr ar hyn o bryd yn ansicr ynghylch a hoffent fod yn un yn y dyfodol, gostyngiad o'i gymharu â'r 18% a oedd yn ansicr yn 2022.

Nid yw dros ddau o bob tri (68%) eisiau bod yn rheolwr neu'n oruchwylwr, cynnydd sylweddol o'i gymharu â'r 59% a deimlai fel hyn yn 2022, sy'n parhau â'r duedd ar y fyny ar y mesur hwn. Am y tro cyntaf eleni, rhannwyd y mesur hwn yn ôl a oedd gweithwyr wedi cyflawni rolau goruchwyllo/rheoli o'r blaen ai peidio. Ar y sail hon, nid oedd 56% wedi gwneud hynny o'r blaen, ac roedd 12% wedi gwneud hynny.

Mae tri o bob deg o'r holl ymatebwyr (31% o'i gymharu â 33% yn 2022, 34% yn 2018/19 a 25% yn 2015) a phedwar o bob pump o'r rhai sydd â neu a fu â rhyw fath o gyfrifoldebau goruchwyllo neu reoli (83% o'i gymharu ag 80% yn 2022, 81% yn 2018/19, 73% yn 2015 a 71% yn 2012) wedi derbyn hyfforddiant ffurfiol a gynlluniwyd i wella gwybodaeth neu sgiliau rheoli neu oruchwyllo.

O ran y mathau o hyfforddiant goruchwyllo/rheoli a ymgwymerir, SMSTS (Cynllun Hyfforddi Diogelwch Rheolwyr Safle) yw'r un a grybwyllir amlaf gan y rhai sydd wedi ymgymryd ag unrhyw hyfforddiant (63%), ac i raddau mwy nag yr oedd yn wir yn 2022 (43%). Cyrsiau Goruchwylwyr Diogelwch Safle (32%) a hyfforddiant mewnol (25%) yw'r mathau nesaf mwyaf cyffredin o hyfforddiant, sy'n cyfateb â 2022 (31% a 24% yn y drefn honno), a gyda fersiynau blaenorol o'r arolwg.

Lefelau sgiliau cyffredinol

Mae gan y mwyafrif helaeth o weithwyr adeiladu (96%) gymhwyster sy'n gysylltiedig ag adeiladu a/neu gerdyn/tystysgrif sgiliau (neu roeddent yn gweithio tuag at gymhwyster ar adeg y cyfweiliad): dim ond 3% o'r rhai a gyfwelwyd na allai ddweud eu bod o leiaf yn gweithio tuag at gael cerdyn CSCS (neu debyg) neu gymhwyster adeiladu.

Mae gan draean o'r gweithlu (36%) gerdyn/tystysgrif sgiliau ond nid oes ganddynt unrhyw gymhwyster adeiladu arall. Mae un o bob deg (9%) yn gweithio tuag at gymhwyster.

Ar y cyfan, mae gan bron i hanner (46%) gymwysterau sy'n cyfateb i Lefel 2 neu uwch.

Symudedd daearyddol

Hanes gwaith yn y rhanbarth/gwlad

Fel sydd wedi bod yn wir ers 2018/19, mae tua hanner (51%) yn nodi bod eu cyflogwr wedi eu hanfon yma. Bu gostyngiad sylweddol yn y gyfran sy'n dweud eu bod wedi tyfu i fyny yn y lleoliad hwn/wedi byw yno erioed, o 46% yn 2022 i 22% yn yr arolwg diweddaraf. Mae hyn yn bennaf o ganlyniad i gynnydd yn y gyfran sy'n dweud ei fod am resymau teuluol, o 5% yn 2022 i 19% yn yr arolwg diweddaraf. Bu cynnydd hefyd, er yn llawer llai amlwg, yn y cyfrannau sy'n dweud bod mwy o swyddi ar gael yn yr ardal (o 3% i 7%), ac mewn sôn am gyflog gwell (o 4% i 6%).

Mae cael eu magu yno yn cael ei grybwyll ar lefelau uwch na'r cyfartaledd gan weithwyr yng Ngogledd Iwerddon (67%), y De-orllewin (46%), Cymru (45%), Swydd Efrog a'r Humber (37%) a'r Alban (32%). Mae cael eu hanfon yno gan eu cyflogwr yn cael ei grybwyll ar lefelau uwch na'r cyfartaledd gan weithwyr yng Ngogledd-ddwyrain Lloegr (100%), Dwyrain Canolbarth Lloegr (82%), Llundain (70%) a Dwyrain Lloegr (64%).

Er bod cyfran y gweithwyr sydd wedi gweithio yn eu rhanbarth presennol am eu gyrfa gyfan wedi lleihau, o 49% yn 2022 i 41% yn yr arolwg diweddaraf, bu cynnydd cyfatebol yn y gyfran sy'n nodi eu bod yn gweithio yn eu rhanbarth presennol y rhan fwyaf o'r amser, o 34% yn 2022 i 41% yn yr arolwg diweddaraf. Mae hyn yn golygu bod cyfran y gweithwyr sydd wedi gweithio yn eu rhanbarth presennol am eu gyrfa gyfan neu'r rhan fwyaf ohoni wedi aros yn sefydlog ar 81% (o'i gymharu ag 83% yn 2022), yn dilyn cynnydd dros 2018/19 (77%). Mae'r rhai sydd wedi'u lleoli yng Ngogledd Iwerddon (78%), yr Alban (58%), Cymru (54%), y De-orllewin (53%) a Gorllewin Canolbarth Lloegr (51%) yn fwy tebygol na'r cyfartaledd o ddweud eu bod wedi treulio eu holl yrfa yn y rhanbarth/gwlad bresennol hon.

Rhanbarth/gwlad y buont yn gweithio ynddi cyn y safle presennol

Wrth feddwl am y safle adeiladu diwethaf y buont yn gweithio arno cyn eu safle presennol, yn y rhan fwyaf o achosion, mae safleoedd diwethaf gweithwyr yn yr un rhanbarth/gwlad ag y maent yn gweithio ynddi nawr. Fodd bynnag, mae'r graddau y mae hyn yn wir yn amrywio'n sylweddol yn ôl rhanbarth/gwlad.

Mae gweithwyr yn y Gogledd-ddwyrain (98%), yr Alban (95%), Llundain (88%) a Gogledd Iwerddon (88%) yn fwy tebygol na'r rhai mewn rhanbarthau eraill o adrodd bod eu safle diwethaf yn yr un wlad/rhanbarth ag y maent yn gweithio ynddi nawr. Mae'r rhai yn y De-ddwyrain yn llai tebygol o adrodd bod hyn yn wir (64%), gyda 24% wedi gweithio yn Llundain o'r blaen, fel y mae'r rhai yn Nwyrain Canolbarth Lloegr (65%), lle'r oedd 21% wedi gweithio yng Ngorllewin Canolbarth Lloegr o'r blaen, a'r rhai yn Swydd Efrog a'r Humber (68%), lle'r oedd 9% wedi gweithio yn y Gogledd-orllewin o'r blaen ac 8% wedi gweithio yn Nwyrain Canolbarth Lloegr o'r blaen.

Ardal wreiddiol gweithwyr

Yn gyffredinol, cyfwelwyd â thri chwarter o'r holl weithwyr adeiladu yn yr un rhanbarth/gwlad ag yr oeddent yn byw ynddo pan ddechreuon nhw eu gyrfa adeiladu (75% o'i gymharu â 74% yn 2022, 72% yn 2018/19 a 75% yn 2015). Fodd bynnag, mae amrywiadau sylweddol yn y graddau y mae gweithwyr wedi aros yn eu hardal wreiddiol.

Fel yr oedd yn 2022, mae naw o bob deg neu fwy o weithwyr sydd wedi'u lleoli ar hyn o bryd yn y Gogledd-ddwyrain (98%), yr Alban (94%) a Gogledd Iwerddon (95%) wedi aros yn yr un rhanbarth/gwlad ag yr oeddent wedi'u lleoli ynddo pan ddechreuon nhw eu gyrfaedd adeiladu. Mae hyn hefyd yn wir am bron i naw o bob deg o'r rhai yn y Gogledd-orllewin (87%).

Mae'r gyfran y mae hyn yn wir amdani ar ei hisaf yn Ne-ddwyrain Lloegr (50%), lle dechreuodd 42% weithio mewn rhanbarth/gwlad arall gyntaf, gan gynnwys 28% a dechreuodd yn Llundain, Swydd Efrog a'r Humber (65%), lle dechreuodd 31% weithio mewn rhanbarth/gwlad arall gyntaf, a Dwyrain Canolbarth Lloegr (66%), lle dechreuodd 30% weithio mewn rhanbarth/gwlad arall gyntaf, gan gynnwys 22% a dechreuodd yng Ngorllewin Canolbarth Lloegr.

Teithio i'r safle

Lleoliad y gweithle presennol o'i gymharu â lleoliad eu cartref

Cafodd y rhan fwyaf o'r gweithwyr adeiladu a roddodd ddigon o wybodaeth i nodi lleoliad eu cartref presennol eu cyfweld ar safle a oedd wedi'i leoli o fewn yr un rhanbarth/gwlad â'u cartref parhaol, ond mae rhywfaint o amrywiad ynghylch a oedd hyn yn wir yn ôl rhanbarth/gwlad.

Cafodd pob gweithiwr yng Ngogledd Iwerddon a bron pob gweithiwr yn yr Alban (99%) a'r Gogledd-ddwyrain (97%) eu cyfweld ar safle a oedd wedi'i leoli o fewn yr un rhanbarth/gwlad â'u cartref parhaol.

Mewn cyferbyniad, mae'r rhanbarthau canlynol yn fwy tebygol o fewnforio gweithwyr o ranbarthau eraill, y rhanbarthau cyfagos yn fwyaf cyffredin:

- Dwyrain Canolbarth Lloegr (44% yn gyffredinol, gan gynnwys 39% o ranbarthau cyfagos)
- Dwyrain Lloegr (42% yn gyffredinol, gan gynnwys 37% o ranbarthau cyfagos)
- De-ddwyrain Lloegr (40% yn gyffredinol, gan gynnwys 28% o ranbarthau cyfagos)
- Llundain (29% yn gyffredinol, gan gynnwys 24% o ranbarthau cyfagos)

De-ddwyrain Lloegr yw'r unig ranbarth sy'n fewnforiwr llafur sylweddol o ranbarthau eraill ymhellach i ffwrdd – mae 11% yn dod o ranbarth sydd ymhellach i ffwrdd.

Pellter pellaf a deithiwyd

Mae traean (34%) o'r holl weithwyr adeiladu wedi gweithio dim mwy nag 20 milltir o'u cartref parhaol, sy'n cyfateb â 2022 (33%), ond cyfran uwch nag oedd cyn hynny (26% yn 2018/19 a 20% yn 2015).

Mae traean arall (35%) wedi gweithio rhwng 21 a 50 milltir i ffwrdd o'u cartref, yn debyg i flynyddoedd blaenorol (33% yn 2022, 32% yn 2018/19 a 31% yn 2015). Mae hyn yn gadael mwy na chwarter (28%) sydd wedi gweithio mwy na 50 milltir i ffwrdd o'u cartref parhaol neu bresennol, sy'n is na'r 32% yn 2022, 41% yn 2018/19 a 47% yn 2015.

Mae hyn yn cynnwys un o bob chwech (18%) sydd wedi gweithio rhwng 50 a 100 milltir (o'i gymharu â 20% yn 2022, 24% yn 2018/19 a 26% yn 2015), ac un o bob deg (10%) sydd wedi gweithio mwy na 100 milltir o gartref (o'i gymharu â 12% yn 2022, 17% yn 2018/19 a 21% yn 2015). Unwaith eto mae amrywiadau yn hyn o beth, gyda gweithwyr sydd wedi'u lleoli yn Swydd Efrog a'r Humber (17%), Gorllewin Canolbarth Lloegr (16%), Gogledd Iwerddon a Chymru (15% yr un) yn fwyaf tebygol o fod wedi teithio mwy na 100 milltir o'u cartref parhaol i'r gwaith yn ystod y 12 mis diwethaf.

Pellter rhwng preswylfeydd a'r gwaith

Y pellter cyfartalog (y cymedr) o breswylfa bresennol gweithwyr (gan ystyried preswylfeydd dros dro) i'w safle presennol yw 20 milltir, gan wrthdroi rhywfaint o'r duedd ar i lawr a welwyd ers i'r arolwg ddechrau (16 milltir yn 2022, 18 milltir yn 2018/19, 22 milltir yn 2015 a 28 milltir yn 2012).

Defnydd o lety dros dro

Yn genedlaethol, dywedodd un o bob ugain (5%) o weithwyr adeiladu eu bod yn aros mewn llety dros dro ar hyn o bryd wrth weithio ar eu safle, yn unol â blynyddoedd blaenorol (5% yn 2018/19, a 6% yn 2015 a 2012). Mae'r gyfran uchaf ymhlith gweithwyr sydd wedi'u lleoli yn Llundain ar hyn o bryd (10%) ac isaf yng Ngogledd Iwerddon (1%). Mae gweithwyr adeiladu o grwpiau ethnig lleiafrifol yn fwy tebygol na gweithwyr Gwyn o fod yn byw mewn llety dros dro (12% o'i gymharu â 4%).

Cyfnod ar y safle a newid

Mewn chwarter (25%) o achosion, nid yw gweithwyr dros dro yn gwybod faint yn hirach y gallent ddisgwyl bod yn gweithio i'w cwmni presennol, gan barhau â'r dirywiad ar y mesur hwn ers 2018/19 (38%, a 32% yn 2022).

Pan ofynnwyd i bob gweithiwr, boed dros dro neu barhaol, nodi faint o amser yn gyfan gwbl y maent yn disgwyl gweithio ar y safle penodol hwnnw yn ystod y cyfnod hwn, nid oedd un o bob pump (20%) yn disgwyl gweithio ar y safle hwnnw am fwy na mis, sef y lefel uchaf a gofnodwyd ers 2012 (12% yn 2022, 14% yn 2018/19 a 12% yn 2015 a 2012). Roedd dros hanner (56%) o'r holl weithwyr yn rhagweld y byddent ar y safle am fwy na mis ond llai na blwyddyn, gan barhau â thuedd ar i fyny ar y mesur hwn (53% yn 2022 a 51% yn 2018/19). Mae un o bob deg (11%) o'r holl weithwyr yn disgwyl

aros ar y safle hwnnw am flwyddyn neu fwy, i lawr o'i gymharu â'r 13% a wnaeth hynny yn 2022, y 18% a wnaeth hynny yn 2018/19, a'r 26% a wnaeth hynny yn 2015.

Ar 13%, mae cyfran y gweithwyr sy'n ansicr pa mor hir y byddant yn gweithio ar y safle hwnnw wedi gostwng i'w lefel isaf ers 2012 (22% yn 2022, 16% yn 2018/19, 24% yn 2015 a 20% yn 2012).

Yn ôl rhanbarth/gwlad, gweithwyr yn y Gogledd-ddwyrain (20%) sydd fwyaf tebygol o fod yn ansicr ynghylch pa mor hir y byddant yn gweithio ar y safle hwnnw, tra bod gweithwyr yng Ngogledd Iwerddon (7%) a Dwyrain Lloegr (9%) sydd leiaf tebygol o fod yn ansicr.

Mae dwy ran o dair (65%) o'r holl weithwyr yn credu, pan fyddant yn gorffen y swydd hon, y byddant yn cael swydd sy'n caniatáu iddynt deithio o'u cartref parhaol i'r gwaith bob dydd. Er bod hyn yn parhau i fod yn fwyaf, mae'n is na'r 69% a gredai fod hyn yn wir yn 2022, a oedd hefyd yn ostyngiad ar 2018/19 (84%).

Fodd bynnag, mae'r gyfran sy'n siŵr na fydd hyn yn wir wedi aros yn sefydlog (6% o'i gymharu â 5% yn 2022 a 4% yn 2018/19), fel y mae'r gyfran sy'n credu ei fod yn dibynnu ble mae'r gwaith (23% o'i gymharu â 20% yn 2022, a oedd yn gynydd sylweddol ar 2018/19 (8%).

Symudedd is-sector a sector

Symudedd is-sector

Tai newydd yw'r math mwyaf cyffredin o waith adeiladu a wneir o hyd, sef 73%, ond i raddau llai nag a welwyd yn flaenorol (78% yn 2022 a 79% yn 2018/19), ac yna atgyweirio a chynnal a chadw tai (42%, o'i gymharu â 42% yn 2022 a 46% yn 2018/19). Ar 45%, mae gwaith masnachol wedi gwella i ryw raddau, yn dilyn gostyngiad yn 2022 (39% o'i gymharu â 51% yn 2018/19).

Mae gwaith diwydiannol preifat (26%), gwaith cyhoeddus nad yw'n dai (26%) a phrosiectau adeiladu seilwaith (15%) i gyd wedi dirywio ers 2022 (35%, 32% a 23% yn y drefn honno) a 2018/19 (45%, 51% a 31% yn y drefn honno), gan osod y rhain ar eu lefelau isaf eto.

Wedi'i gynnwys am y tro cyntaf eleni, roedd 4% wedi gweithio ym maes ôl-osod effeithlonrwydd ynni, er bod hyn yn codi i 24% yng Ngogledd Iwerddon.

Gan adlewyrchu'r canlyniadau hyn, bu gostyngiad parhaus yng nghyfran y gweithwyr sydd wedi gweithio ar bedwar math neu fwy o adeiladu, o 39% yn 2018/19, i 24% yn 2022, i 20% yn yr arolwg diweddaraf.

Mae nifer y mathau o brosiectau y gweithiwyd arnynt yn amrywio'n sylweddol yn ôl rhanbarth/gwlad. Mae mwy na hanner y gweithwyr yn Nwyrain Canolbarth Lloegr (53%) a hanner y rhai yn Llundain a Chymru (50% yr un) wedi gweithio ar un math yn unig, o'i gymharu â 12% yng Ngogledd Iwerddon, a thua thri o bob deg yn yr Alban (27%), y Gogledd-ddwyrain (31%) a Swydd Efrog a'r Humber (33%).

Gadael y sector

Mae bron i hanner (47%) yn credu y byddant yn bendant eisiau bod yn gweithio yn y diwydiant adeiladu ymhen 5 mlynedd, cynnydd ar y 43% a fynegodd y teimlad hwn yn 2022, gan ddychwelyd hyn i'r lefel a welwyd yn 2018/19 (48%). Mae 23% arall yn dweud bod hyn yn debygol iawn, i lawr ar y 27% a ddywedodd hyn yn 2022 a'r 26% a wnaeth hynny yn 2018/19. O ganlyniad, gan gynnwys y rhai sy'n dweud ei fod yn eithaf tebygol, mae 83% yn credu bod hyn yn debygol o fod yn wir, sy'n cyfateb â 2022 (82%) ond yn parhau i fod ychydig yn is na 2018/19 (86%).

Yn unol ag arolygon blaenorol, mae tua un o bob ugain o weithwyr adeiladu yn ystyried ei bod yn annhebygol (6%) y byddant yn dal i weithio yn y diwydiant adeiladu ymhen 5 mlynedd, gyda dim ond 2% yn dweud na fyddant yn bendant. Mae 4% arall yn gobeithio ymddeol erbyn hynny, ac nid yw un o bob ugain (7%) yn gwybod.

Negeseuon allweddol

Nod yr arolwg yw disgrifio'r gweithlu gwaith llafur yn bennaf sy'n llenwi safleoedd adeiladu ledled y DU. Yr hyn y mae'n ei amlygu yw gweithlu profiadol sydd yn bennaf yn wrywod ac yn wyn o ran ei gyfansoddiad. Mae'n ddarlun o weithlu sefydlog, wedi'i ddominyddu gan y rhai a ymunodd â'r diwydiant ar ôl addysg ac sydd wedi gweithio yn y diwydiant yn barhaus byth ers hynny.

Mae'r arolwg yn awgrymu bod y rhan fwyaf o weithwyr yn dilyn llwybrau gyrfa traddodiadol a hirhoedlog, gyda llawer yn dechrau fel llafurwyr ac mewn crefftau medrus cyn symud i rolau mwy medrus. Dilyniant naturiol yw tuag at reoli eraill fel rheolwr/goruchwyliwr safle, ond mae canfyddiadau'r arolwg yn awgrymu (yn 2025) bod mwy o weithwyr yn osgoi'r llwybr hwn a'i gyfrifoldebau ychwanegol cysylltiedig o blaid ennill mwy mewn galwedigaethau galw mawr, fel gosod brics. Mae newid rhwng galwedigaethau yn tueddu i gael ei yrru'n bennaf gan y cyfle i gael cyflog gwell ac er bod dilyniant personol - neu fod eisiau gwneud y gorau o sgiliau neu alluoedd - yn dal yn arwyddocaol, nid yw hyn o reidrwydd yn golygu bod gweithwyr eisiau cymryd mwy o gyfrifoldeb.

Ychydig o dystiolaeth sydd bod adeiladu yn denu mwy o weithwyr o sectorau eraill, sy'n gynyddol bwysig ar gyfer cynnal a thyfu'r gweithlu. Mewn gwirionedd, mae'r arolwg yn tynnu sylw at ostyngiad yn nifer y gweithwyr sy'n dechrau yn y diwydiant adeiladu ar ôl gweithio mewn sectorau eraill. Gyda llai o weithwyr yn ymuno â'r diwydiant adeiladu o ddiwydiannau eraill, mae gan y diwydiant lai o le i lenwi bylchau sgiliau'n gyflym trwy dynnu ar brofiad a gafwyd mewn rhannau eraill o'r economi.

Ychydig o dystiolaeth sydd hefyd bod ymdrechion i gynyddu arallgyfeirio o fewn y gweithlu yn cael effaith. Dros y blyneddau, nid ydym wedi gweld unrhyw duedd sylweddol ar i fyny yng nghynrychiolaeth menywod, gweithwyr o grwpiau ethnig lleiafrifol na'r rhai ag anableddau o fewn y gweithlu.

Yn ogystal, mae arolwg 2025 yn awgrymu symudedd sy'n gostwng o fewn y diwydiant, yn bennaf o ran rolau swyddi, ond hefyd o ran daearyddiaeth. Mae lefelau isel o newid rhwng rolau yn cael eu hamlygu, gyda mwyafrif y gweithwyr yn nodi eu bod yn ffafrio aros yn y rôl y maent ynddi. Mae symud i rolau newydd yn sbarduno hyfforddiant a

dilyniant, tra bod aros fel y maent yn atal datblygiad sgiliau ac yn lleihau'r angen i gaffael cymwysterau/ardystiad newydd. O ystyried bod y rhan fwyaf o weithwyr yn ymuno â'r diwydiant yn syth ar ôl addysg heb unrhyw gymwysterau sy'n gysylltiedig ag adeiladu, rydym yn parhau i weld llawer o'r gweithlu heb gymwysterau ffurfiol ryw ffordd yn eu gyrfaedd, ac er bod lefelau uchel o ardystiad, ychydig iawn sy'n gweithio tuag at gymwysterau wrth iddynt fynd. Gyda'i gilydd, mae hyn yn awgrymu gweithlu sy'n dod yn fwy sefydlog yn ei broffil sgiliau presennol, gyda llai o sbardunau ar gyfer ailhyfforddi, dilyniant, neu uwchsgilio ffurfiol - pan fo angen yr union gyferbyn ar y diwydiant, gellid dadlau.

O ran lefelau is o symudedd daearyddol, mae rhanbarthau o hyd, fel Llundain a De-ddwyrain Lloegr, sy'n denu gweithwyr o bellter pellach, ond ar y cyfan nid yw gweithwyr yn teithio mor bell o gartref i'r gwaith ag yr oeddent cyn pandemig COVID-19, ac mae gweithio lle cawsant eu magu/lle mae ganddynt gysylltiadau teuluol yn gynyddol bwysig. Gallai hyn adlewyrchu meddylfryd sy'n canolbwyntio mwy ar y cartref yn dilyn y pandemig. Mae lefelau is o symudedd daearyddol hefyd yn ei gwneud hi'n anoddach i'r diwydiant ymateb i wahaniaethau rhanbarthol yn y galw, gan fod prinder llafur a sgiliau yn anoddach i'w datrys gan weithwyr sy'n symud o rannau eraill o'r wlad.

Mae shifft wedi bod hefyd hunangyflogaeth tuag at gyflogaeth uniongyrchol. Mae hyn yn teimlo fel newid strwythurol cynnil o fewn y diwydiant a gallai adlewyrchu'r angen i gyflogwyr feithrin gweithlu sefydlog, dibynadwy a rheoledig i gyflawni prosiectau a'r awydd gan weithwyr i gael mwy o ddiogelwch swydd - efallai mewn ymateb i gynnydd yng nghost byw a phrisiau tai, yn enwedig yn y ddwy i dair blynedd diwethaf.

Er bod hunangyflogaeth, gweithio dros dro, cyfnodau byr ar safleoedd, ac oriau gwaith hir i gyd yn llai arwyddocaol nag yr oeddent, maent yn dal i fod yn arferion cyffredin o fewn y diwydiant adeiladu. Maent yn rhan anochel o natur seiliedig ar brosiectau'r diwydiant sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r gweithlu ddilyn y gwaith a bod yn barod i addasu eu sgiliau i'r galw. Mae'r arolwg yn tynnu sylw at rai pryderon ynghylch sut y bydd y gofynion hyn yn cael eu bodloni yn y dyfodol. O'i gymharu â dwy i dair blynedd yn ôl, mae'n ymddangos bod gweithwyr yn fwy gwrthsefyll newid rolau, cymryd mwy o gyfrifoldeb, teithio pellteroedd hir i'r gwaith, uwchsgilio'n ffurfiol, a symud rhwng is-sectorau gan leihau llif profiad rhwng prosiectau a chyfyngu ar drosglwyddo sgiliau, gwybodaeth ac arferion gwaith ar draws y diwydiant.

Mae arolwg 2025 yn tynnu sylw at weithlu cyson, sefydlog sy'n dod yn fwyfwy statig ar adeg pan fo allbwn adeiladu ar fin tyfu a phan fo angen i adeiladu symud i feysydd newydd a mabwysiadu technolegau newydd. Y cwestiwn allweddol yw a yw'r gweithlu presennol yn meithrin profiad ac yn adnewyddu sgiliau ar y cyflymder sydd ei angen i ateb yr heriau hyn, ac a oes yr awydd i wneud hynny. Ar y cyfan, mae canfyddiadau'r arolwg yn awgrymu nad yw.

Cyflwyniad

Nodau ac Amcanion

Yn 2025, comisiynwyd *BMG Research* i gynnal arolwg ledled y DU o symudedd a sgiliau gweithwyr adeiladu yn y DU. Mae hyn yn dilyn fersiynau blaenorol a gynhaliwyd yn 2022, 2018/19, 2015, 2012, 2007 a 2005.

Prif nod y prosiect hwn yw darparu gwybodaeth gadarn a dibynadwy gan weithwyr ar safleoedd ar draws diwydiant adeiladu'r DU ar eu lefelau cymwysterau a graddfa eu symudedd galwedigaethol a daearyddol. Mae'r gwaith hwn yn gwella'r sail dystiolaeth ar gyfer cynllunio sgiliau, yn enwedig o ran proffilio'r gweithlu presennol a nodi lle gallai bylchau sgiliau ddod i'r amlwg o ganlyniad i symudiad galwedigaethol a daearyddol. Dylai'r canfyddiadau gynorthwyo'r diwydiant, y llywodraeth, darparwyr hyfforddiant ac eraill sydd â chyfrifoldeb am ddatblygu sgiliau'r diwydiant i gyfeirio eu gwaith gyda mwy o gywirdeb ac effaith.

Amcanion penodol y prosiect ymchwil hwn yw:

- archwilio lefelau cymwysterau gweithlu'r diwydiant adeiladu yn y DU a dadansoddi pa ran y mae cymwysterau wedi'i chwarae mewn datblygiad gyrfa
- nodi, meintoli a dadansoddi i ba raddau y mae'r gweithlu ym mhob rhanbarth/gwlad yn y DU yn cynnwys gweithwyr sy'n wreiddiol o neu'n byw mewn rhannau eraill o'r DU (neu ymhellach i ffwrdd) a symudedd a theithio i'r gwaith
- archwilio galwedigaethau a lefelau cymwysterau'r gweithlu symudol sy'n wreiddiol o'r DU a'r rhan honno o'r gweithlu sydd o dramor yn wreiddiol
- archwilio graddfa ac ehangder symudedd galwedigaethol o fewn y gweithlu adeiladu i weld sut mae gweithwyr mewn galwedigaethau adeiladu yn newid eu galwedigaethau dros amser, o fewn adeiladu ac mewn perthynas â sectorau eraill, ac, yn gysylltiedig â hyn, i ba raddau y mae rheolwyr a goruchwylwyr wedi derbyn hyfforddiant yn benodol i wella eu sgiliau rheoli

Mae ffocws yr arolwg ar gyflawni prosiectau adeiladu yn gorfforol ar y safle ac, felly, nid yw'n cynnwys galwedigaethau clerigol a gwerthu cysylltiedig na gweithwyr proffesiynol fel penseiri, syrfewyr a rheolwyr swyddfa.

Dull

Trosolwg

Dilynodd Arolwg Symudedd y Gweithlu Adeiladu 2025 fethodoleg debyg i'r un a ddefnyddiwyd yn y don ddiwethaf o'r ymchwil hon yn 2022. At ei gilydd, roedd angen 3,611 o gyfweiliadau â gweithwyr adeiladu mewn rolau ar safleoedd ledled y DU, wedi'u rhannu rhwng y 12 rhanbarth/gwlad safonol.

Samplu

Mae'r is-adran hon yn rhoi trosolwg o'r fethodoleg samplu a ddefnyddiwyd ar gyfer yr arolwg. Darperir rhagor o fanylion yn yr adroddiad technegol sy'n cyd-fynd â'r adroddiad dadansoddol hwn.

Er bod yr arolwg hwn yn canolbwyntio ar symudedd gweithwyr unigol, y strategaeth samplu erioed fu dewis prosiectau adeiladu (y cyfeirir atynt yn gyffredinol yn yr adroddiad hwn fel 'safleoedd') gyda digon o weithwyr ar y safle bob dydd i alluogi o leiaf 10 cyfweiliad. Defnyddiwyd y dull hwn sy'n seiliedig ar y safle i sicrhau cyfweiliadau wyneb yn wyneb cost-ffeithiol, ond mae hefyd yn hwyluso dadansoddi patrymau teithio. Gosodir meini prawf cymhwysedd prosiect i sicrhau cyfweiliadau wyneb yn wyneb cost-ffeithiol ac i sicrhau bod yr arolwg yn cwmpasu ystod eang o alwedigaethau sy'n gweithio ar safleoedd.

Mewn arolygon blaenorol, defnyddiwyd cronfa ddata prosiectau adeiladu 'Glenigan' a gynhyrchwyd yn fasnachol fel y ffrâm samplu. Yn 2022, ategwyd hyn â gwybodaeth o 'Construction Maps'¹, sydd ar gael ar-lein ac sy'n darparu manylion am safleoedd adeiladu ledled y DU. Gellid darparu'r wybodaeth hon i gyfweilwyr fel y gallent ymweld â safleoedd i ofyn am fynediad i gynnal cyfweiliadau â gweithwyr ar y safle. Roeddent yn gallu targedu clystyrau o safleoedd adeiladu ym mhob rhanbarth/gwlad. Yn 2025, penderfynwyd cyflwyno'r dull samplu hwn ar gyfer yr holl waith maes, gan ddileu'r angen i ddefnyddio cronfa ddata 'Glenigan' a gorfod archebu ymweliadau ymlaen llaw. Gellid cwblhau gwaith maes mewn cyfnod byrrach ac am gost is gan ddefnyddio 'Construction Maps'.

Meini prawf cymhwysedd y prosiect oedd:

- gwerth: £250,000+
- cam y contract: 'dechrau ar y safle'; 'dyfarnu contract' neu 'wedi bilio' yn unig
- dyddiad cychwyn/dyddiad gorffen y safle: yn weithredol drwy gydol cyfnod y gwaith maes a gynlluniwyd

Lle'r oedd safleoedd yn bodloni'r meini prawf hyn, ystyriwyd eu bod yn gymwys i gymryd rhan, ac roedd y mwyafrif helaeth o safleoedd a gofnodwyd yn 'Construction Maps' yn cyd-fynd â'r meini prawf hyn h.y. roedd yn rhaid iddynt fod yn brosiectau adeiladu mawr i'w cofnodi yn y feddalwedd hon ac roeddent yn gyfredol ar adeg y gwaith maes.

Roedd nifer cyfartalog y safleoedd fesul rhanbarth/gwlad yn 36, gyda'r nifer isaf yn Nwyrain Lloegr (26) a'r uchaf yng Ngogledd Iwerddon (63). Cynhaliwyd, ar gyfartaledd, 8 cyfweiliad fesul safle, gyda'r nifer cyfartalog isaf o gyfweiliadau fesul safle yng Ngogledd Iwerddon (5) a'r uchaf yn Nwyrain Lloegr (12).

Ar draws yr holl safleoedd yr ymwelwyd â nhw, cytunodd 53% i ganiatáu i gyfweilwyr ar y safle ofyn i weithwyr gwblhau'r arolwg. Cynhaliwyd pob ymweliad â'r safle gyda chaniatâd penodol ac o dan oruchwyliaeth rheolwr y safle.

¹ [Construction Map](#)

Mae'r tabl canlynol yn dangos nifer y cyfweiliadau a gyflawnwyd ym mhob rhanbarth/gwlad. Er mwyn cael seiliau cryf ar gyfer dadansoddi rhanbarthol/cenedlaethol, gosodwyd cwota o 300 o holiaduron wedi'u cwblhau fesul rhanbarth/gwlad, gyda chaniatâd o +/-50 o gyfweiliadau fesul rhanbarth/gwlad. Fodd bynnag, yn ystod y cam dadansoddi, cymhwyswyd ffactorau pwysoli i ddata'r arolwg i sicrhau, ar gyfer dadansoddi cenedlaethol, bod rhanbarthau/cenhedloedd yn cael eu cynrychioli yn eu cyfrannau cywir yn ôl maint y gweithlu adeiladu fesul rhanbarth/gwlad fel yr adroddwyd yn Arolwg Poblogaeth Blynnyddol y llywodraeth o oedolion economaidd weithgar 16 oed a throsodd.

Table 1: Nifer y cyfweiliadau yn y sampl pwysol yn ôl rhanbarth/gwlad

	Cyfweiliadau	Canran bwysiedig
Dwyrain Canolbarth Lloegr	300	6.6
Dwyrain Lloegr	300	11.7
Llundain	302	12.2
Gogledd-ddwyrain	301	3.5
Gogledd-orllewin	300	11.1
De-ddwyrain	300	14.0
De-orllewin	302	10.7
Gorllewin Canolbarth Lloegr	300	7.6
Swydd Efrog a'r Humber	304	8.4
Gogledd Iwerddon	300	2.8
Yr Alban	300	7.4
Cymru	302	4.2
DU	3,611	100.0

*Ffynhonnell- Arolwg Poblogaeth Blynnyddol drwy *Nomis*: Oedolion Economaidd Weithgar 16+ oed, Hydref 2023-Medi 2024; noder nad yw'r ganran gyfanswm yn adio'n union i 100 oherwydd talgrynnu

Mae rhagor o wybodaeth am samplu a'r safleoedd a gynhwyswyd i'w chael yn yr adroddiad technegol.

Cwblhawyd cyfweiliadau gan ddefnyddio technegau Cyfweld Personol â Chymorth Cyfrifiadur (CAPI) yn ogystal â thechnegau hunan-gwblhau, gan gynnwys rhannu dolen i arolwg ar-lein i weithwyr ei gwblhau ar y safle neu unwaith y byddent adref yn ddiweddarach. Cwblhawyd y gwaith maes rhwng mis Mehefin a mis Tachwedd 2025 yn gynhwysol.

Darperir rhagor o fanylion am y broses gyfweld yn yr adroddiad technegol.

Pwyntiau methodoleg i'w nodi

Wrth drafod canfyddiadau o'r arolwg hwn o symudedd a sgiliau yng ngweithlu diwydiant adeiladu'r DU yn 2025, mae nifer o bwyntiau rhagarweiniol yn berthnasol.

Yn gyntaf, mae rhai pwyntiau methodolegol yn berthnasol.

Fel y nodwyd yng nghyflwyniad yr adroddiad, gall amrywiad samplu (er enghraifft, gwahaniaethau ar hap yng nghyfansoddiad y samplau mewn gwahanol rifynnau o'r arolwg neu yn yr is-samplau rhanbarthol gwahanol o fewn arolwg eleni) achosi gwahaniaethau ymddangosiadol neu orliwio gwahaniaethau gwirioneddol yng nghanfyddiadau'r arolwg dros amser neu rhwng rhanbarthau sy'n ddyledus yn fwy i'r effeithiau samplu hyn nag i newid yn y byd go iawn. Mae'r effaith hon yn arbennig o debygol wrth ystyried is-setiau llai o ddata lle mae gan effeithiau o'r fath y potensial i gael effaith gymesur fwy. Nid yw'r pwynt yw bod gwahaniaethau mewn canfyddiadau ar gyfer gwahanol grwpiau neu dros amser o reidrwydd yn afreal ond bod angen rhoi rhywfaint o ofal wrth ddehongli'r canfyddiadau fel bod eu cysondeb â data cysylltiedig arall a gyda gwybodaeth allanol am yr amgylchedd y cynhaliwyd yr arolwg ynddo yn cael ei ystyried.

Ymhellach, ar y cwestiwn dehongli hwn, mae'n amlwg bod arolwg eang, fel yma, o nifer fawr o ymatebwyr gan ddefnyddio holiadur strwythuredig, yn cynhyrchu datganiadau o ffaith (cyn belled ag y gall arfer gorau mewn arolwg amcangyfrif 'fffaith') ond nid yw o reidrwydd yn egluro'r rheswm dros ystadegyn penodol na'i newid dros amser. Yn y drafodaeth isod, felly, gwneir rhai sylwadau deongliadol ar y data sy'n ymestyn y tu hwnt i'r data ei hun. Yn amlwg, bydd gan sylwadau o'r fath fwy neu lai o gyfiawnhad a bydd darllenwyr sydd â gwybodaeth am y diwydiant, wrth gwrs, yn defnyddio eu gwybodaeth a'u profiad eu hunain wrth ystyried canfyddiadau penodol.

Nodiadau ar ddarllen yr adroddiad hwn

Defnyddiwyd nifer o gonfensiynau yn yr adroddiad hwn i gynorthwyo gyda chyflwyniad cryno o ddata rhifiadol a gyda byrder o fewn testun.

Disgrifir y sylfaen ar gyfer ystadegau islaw pob tabl, gyda'r cyfrifon sylfaen (amhwysol) ar resi penodol o dablau. Lle mae tablau'n cynnwys ystadegau ar lawer o wahanol sylfaenau, dangosir y sylfaenau amhwysol ar gyfer data 2025 mewn cromfachau.

Mae pob tabl yn cyflwyno canrannau (oni nodir yn wahanol) wedi'u cyfrifo ar y sylfaenau ddangosir. Lle dangosir cyfartaleddau 'cymedr', cyfrifir y rhain ar y sylfaen a nodwyd, heb gynnwys unrhyw ymatebion 'heb eu nodi' neu sy'n dewis ymateb 'ddim yn gwybod/ddim yn berthnasol'.

Mae tablau a graffiau i gyd wedi'u labelu â rhif tabl dilyniannol syml a theitl. Mae gan bob tabl feintiau sylfaen wedi'u labelu'n glir a diffiniadau testunol o sylfaenau. Gall cyfanswm y canrannau a ddangosir mewn tabl amrywio ychydig o 100% oherwydd talgrynnu i'r pwynt canran agosaf.

Dylid darllen dadansoddiad yn ôl rhanbarth/gwlad yn ofalus oherwydd eu meintiau is-sampl cyfyngedig. Dangosir sylfaenau amhwysol drwyddi draw i gael arweiniad ar y pwynt hwn.

Proffil gweithwyr safle adeiladu

Cyflwyniad

Mae'r adran gyntaf hon o'r adroddiad yn darparu proffil o weithwyr safleoedd adeiladu a gyfwelwyd yn yr arolwg a, lle bo modd, yn gwneud cymariaethau ag arolygon blynyddoedd blaenorol. Mae'r adran yn archwilio: *demograffeg bersonol*, gan gynnwys rhywedd, oedran, ethnigrwydd, cenedligrwydd (gan gynnwys hyd yr amser y mae gweithwyr wedi bod yn byw yn y DU) ac anabledd; *galwedigaeth bresennol*; *statws cyflogaeth* h.y. a ydynt yn cael eu cyflogi'n uniongyrchol, yn hunangyflogedig neu gan asiantaeth; a *chontract cyflogaeth* h.y. a ydynt yn gweithio dros dro neu'n barhaol.

Yna mae'r adran yn symud ymlaen i archwilio hanesion gyrfaedd, gan gynnwys: nifer y blynyddoedd y mae ymatebwyr wedi gweithio yn y diwydiant adeiladu, hanesion cyflogaeth cyn adeiladu, newid galwedigaethol, a datblygiad o fewn y sector adeiladu.

Demograffeg bersonol

Rhywedd

Mae'r adran hon o'r adroddiad yn archwilio lefelau cymwysterau gweithwyr adeiladu ac achrediadau eraill, gan archwilio gwahaniaethau yn ôl newidynnau allweddol fel rhanbarth/gwlad, galwedigaeth a hyd eu profiad. Mae'r materion a gwmpesir yn yr adran hon yn cynnwys:

- yr ystod o gardiau sgiliau a thystysgrifau sydd gan weithwyr
- cymwysterau sy'n gysylltiedig ag adeiladu: a gafwyd cyn dechrau gweithio yn y sector adeiladu; ers dechrau gweithio yn y sector; ac y maent yn gweithio tuag at eu hennill
- angen hunan-ganfyddedig gweithwyr am hyfforddiant ychwanegol mewn sgiliau sylfaenol

Cardiau a thystysgrifau sgiliau adeiladu

Mae'r mwyafrif helaeth (93%) o weithwyr adeiladu yn nodi bod ganddynt gerdyn neu dystysgrif sgiliau (e.e. CSCS neu CSR), sy'n cyfateb â 2022 (hefyd 93%), ond mae'n gyfran is na'r 97% a wnaeth hynny yn 2018/19 ac arolygon cynharach. Mae'r gyfran a nododd nad oedd ganddynt gardiau yn parhau ar 6%.

Fel y dangosir yn y tabl isod, mae bron pob gweithiwr yn y De-ddwyrain (97%), y Gorllewin Canolbarth (96%) a'r Gogledd-orllewin (95%) yn nodi bod ganddynt gerdyn, tra bod y gyfran hon yn gostwng i 89% yn y Gogledd-ddwyrain, y De-orllewin ac yn yr Alban.

Table 24: Cyfran y gweithwyr sydd â cherdyn/tystysgrif sgiliau, yn ôl rhanbarth/gwlad dros amser

Canrannau rhes	2025 %	2022 %	2018/19 %	2015 %	2012 %
Cyfanswm (3,611)	93	93	97	96	97
Dwyrain Canolbarth Lloegr (300)	92	90	93	93	99
Dwyrain Lloegr (300)	91	91	97	96	98
Llundain (302)	93	92	98	98	96
Gogledd-ddwyrain (301)	89	97	94	96	99
Gogledd-orllewin (300)	95	91	98	97	99
De-ddwyrain (300)	97	93	98	98	96
De-orllewin (302)	89	97	97	96	97
Gorllewin Canolbarth Lloegr (300)	96	91	99	98	100
Swydd Efrog a'r Humber (304)	93	94	98	97	97
Gogledd Iwerddon (300)	94	97	97	90	100
Yr Alban (300)	89	91	99	88	98
Cymru (302)	93	95	92	92	92

C12. Which type of construction skill certificate or card, if any, do you currently hold?

Sylfaenau amhwysol ar gyfer 2025 mewn cromfachau: yr holl ymatebwyr

Nodyn: mae ffigurau mewn print trwm ar gyfer 2025 yn uwch yn ystadegol na'r cyfartaledd ar lefel hyder 95%

Fel mewn arolygon blaenorol, mae nifer y gweithwyr sy'n dal cardiau neu dystysgrifau sgiliau yn parhau i fod yn is ymhlith y gweithwyr ieuengaf (16 i 19 oed) a'r rhai sy'n newydd iawn i'r diwydiant adeiladu (ar ôl gweithio yn y diwydiant am lai na blwyddyn) sef 81% yn y ddau achos.

Mae'r rhai sy'n cael eu cyflogi'n uniongyrchol (91%) yn llai tebygol na'r rhai sy'n hunangyflogedig neu'r rhai sy'n gweithio i asiantaeth o gael cerdyn/tystysgrif sgiliau (y ddau yn 96%).

Table 25: Cyfran y gweithwyr sydd â cherdyn/tystysgrif sgiliau dros amser

	Canrannau rhes	2025 %	2022 %	2018/19 %	2015 %
Cyfanswm	DU (3,611)	93	93	97	96
Oedran	16 i 19 mlynedd (185)	81	83	85	86
	20 i 24 mlynedd (393)	95	89	97	95
	25 i 44 mlynedd (1,904)	94	93	98	99
	45+ mlynedd (1,091)	92	94	98	97
Amser yn y diwydiant	Llai na blwyddyn (239)	81	81	89	89
	1 i 2 flynedd (232)	91	79	97	86
	2 i 5 mlynedd (565)	94	92	96	96
	5+ mlynedd (2,566)	94	95	98	98
Math o gyflogaeth	Wedi'i gyflogi'n uniongyrchol (2,221)	91	90	96	97
	Hunangyflogedig (1,159)	96	96	98	99
	Asiantaeth (210)	96	90	97	92
Lleoliad cyn gweithio yn sector adeiladu yn y DU	Dinesydd y DU/Gweriniaeth Iwerddon (3,485)	93	93	97	97
	Gweithiwr mudol (126)	91	91	98	98

C12. Which type of construction skill certificate or card, if any, do you currently hold?

Sylfaenau amhwysol ar gyfer 2025 mewn cromfachau: yr holl ymatebwyr

Nodyn: mae ffigurau mewn print trwm ar gyfer 2025 yn uwch yn ystadegol na'r cyfartaledd ar lefel hyder 95%

O ran y math o gerdyn sgiliau neu dystysgrif sydd gan weithwyr, y CSCS (Cynllun Ardystio Sgiliau Adeiladu (GB)) yw'r un mwyaf cyffredin o hyd (84%), gan ddychwelyd i'r lefelau a welwyd yn 2018/19 (85%) yn dilyn gostyngiad yn 2022 (80%).

Mae'r gyfran sy'n dal y CISRS (Cynllun Cofnodi Sgaffaldwyr y Diwydiant Adeiladu) yn gyson ag arolygon blaenorol (3%), tra bod gostyngiad wedi bod yn y gyfran sy'n dal y CPCS (Cynllun Cymhwysedd Gwaith Adeiladu), o 14% yn 2022 i 7% yn 2025.

Ar y cyfan, mae 3% yn dal y cerdyn/tystysgrif CSR (Cofrestr Sgiliau Adeiladu (NI)), sy'n cyfateb i 92% o weithwyr yng Ngogledd Iwerddon, sydd ychydig yn is na'r 96% a'i daliodd yn 2022, ond mae'n parhau'n uwch nag arolygon cynharach, ac yn uwch na'r gyfran sy'n dal y CSCS (GB) (84%).

Table 26: Math o gerdyn/tystysgrif sgiliau a ddelir dros amser

	2025 %	2022 %	2018/19 %	2015 %
Unrhyw gerdyn/tystysgrif	93	93	97	96
CSCS (Cynllun Ardystio Sgiliau Adeiladu) (GB)	84	80	85	86
CSR (Cofrestr Sgiliau Adeiladu) (NI)	3	5	3	3
CISRS (Cynllun Cofnodi Sgaffaldwyr y Diwydiant Adeiladu)	2	3	3	4
CPCS (Cynllun Cymhwysedd Peiriannau Adeiladu)	7	14	11	13
Arall	4	6	4	4
Sylfaenau amhwysol	3,611	3,005	4,048	4,771

C12. Which type of construction skill certificate or card, if any, do you currently hold?

Sylfaenau amhwysol: yr holl ymatebwyr

Yn ôl swydd bresennol, er bod sgaffaldwyr yn llai tebygol na'r cyfartaledd o ddal CSCS (59%), maent yn fwy tebygol o ddal CISRS (45%) ac mae gan 98% o'r grŵp hwn o leiaf un cerdyn neu dystysgrif.

Yn yr un modd, er bod trydanwyr hefyd yn llai tebygol na'r cyfartaledd o ddal CSCS (60%), maent yn fwy tebygol o ddal math arall o gerdyn neu dystysgrif (34%), sydd yn benodol i'w crefft.

Galwedigaethau lle mae gweithwyr yn llai tebygol o ddal unrhyw gardiau/tystysgrifau sgiliau yw:

- technegol: nid oes gan 16% gardiau
- towyr: nid oes gan 12% gardiau
- paentwyr/addurnwyr: nid oes gan 11% gardiau
- plastrwyr: nid oes gan 11% gardiau

Gofynnwyd i weithwyr sydd â cherdyn CSCS neu CSR pa liw yw eu cardiau, a chrynhoir hyn yn nhablau 26 a 27.

Ar y cyfan, mae gan 3% o ddeiliaid cardiau CSCS gardiau Coch, i lawr ar yr 8% a oedd â hynny yn 2022. Mae gan bedwar o bob deg (40%) gardiau Gwyrdd, cynnydd ar y 30% a oedd â hynny yn 2022, gan adlewyrchu'r gyfran uwch o lafurwyr/gweithredwyr cyffredinol yn y sampl ddiweddaraf.

Mae gan dri o bob deg (30%) gardiau Glas, i lawr ar 2022 (34%), ac mae gan un o bob deg (10%) gardiau Aur, eto i lawr ar 2022 (15%). Mae gan un o bob deg (9%) gerdyn Du, i fyny o 6% yn 2022.

Mae mathau eraill o gardiau yn cael eu dal gan ychydig iawn o weithwyr.

Yn ôl rhanbarth/gwlad mae'r gwahaniaethau allweddol canlynol yn bodoli:

- Mae cardiau Gwyrdd yn fwy cyffredin na'r cyfartaledd yn y Gogledd-ddwyrain (53%), a Llundain (49%), ac yn llai cyffredin na'r cyfartaledd yn yr Alban (30%), Swydd Efrog a'r Humber (31%) a'r Gogledd-orllewin (33%)
- Mae cardiau Glas yn fwy cyffredin na'r cyfartaledd yn y Gogledd-orllewin (36%) ac yn llai cyffredin na'r cyfartaledd yn Llundain (23%) a'r Gogledd-ddwyrain (25%)
- Mae cardiau Aur yn fwy cyffredin na'r cyfartaledd yn Swydd Efrog a'r Humber (15%), yr Alban (15%), Cymru (14%) a'r Gogledd-ddwyrain (13%)

Table 27: Lliw cerdyn CSCS a ddelir dros amser

	2025 %	2022 %	2018/19 %	2015 %
Coch – Dan hyfforddiant	2	5	4	5
Coch – Cerdyn gweithiwr profiadol	1	3	3	2
Gwyrdd - Cerdyn llafurwr	40	30	33	35
Glas – Medrus	30	34	29	27
Aur – Gweithiwr crefft/medrus uwch	6	8	11	18
Aur – Cerdyn goruchwyliwr	4	7	6	
Du – Cerdyn rheolwr	9	6	6	5
Cerdyn Personau Cymwys yn Academaidd	2	2	3	
Cerdyn Personau Cymwys yn Broffesiynol	1	1	1	
Cerdyn Dros Dro	<0.5	<0.5	<0.5	
Cerdyn Ymwelydd Safle Adeiladu	<0.5	<0.5	<0.5	
Cerdyn Prentis	1	1	1	
Arall	2	1	2	2
Ansicr	1	2	2	4
Sylfaenau amhwysol	2,861	2,318	3,398	3,975

C13. *What colour is your CSCS card?*

Sylfaen amhwysol: lle mae cerdyn CSCS yn cael ei ddal

Mae lliwiau cardiau CSCS hefyd yn amrywio'n sylweddol yn ôl galwedigaeth/crefft gyfredol, fel y mae tabl 28 yn ei grynhoi. Mae rhai gwahaniaethau arwyddocaol yn cynnwys y rhai bod llafurwyr/gweithredwyr cyffredinol yn fwyaf tebygol o ddal cardiau Gwyrdd (79%), tra bod gweithredwyr peiriannau/peirianwaith yn fwyaf tebygol o ddal cardiau Glas (70%), fel y mae gosodwyr leinin sych (56%), gosodwyr brics (50%), seiri coed/seiri dodrefn (49%), plymwyr (46%) a sgaffaldwyr (42%).

Mae trydanwyr yn fwy tebygol na'r cyfartaledd o ddal cerdyn Aur (44%), ac mae rheolwyr safle yn fwy tebygol o ddal cardiau Aur (19%) a Du (44%). Mae'r rhai mewn galwedigaethau technegol yn fwy tebygol na'r cyfartaledd o ddal cardiau Du (23%).

Table 28: Lliw cerdyn CSCS a gedwir yn ôl galwedigaeth bresennol

Canrannau rhes	Coch %	Gwyrdd %	Glas %	Aur %	Du %
Pawb (3,611)	3	40	30	10	9
Gosodwr brics (209)	4	22	50	18	1
Saer coed/saer dodrefn (191)	3	20	49	18	5
Gosodwr leinin sych (94)	2	34	56	3	1
Trydanwr (108)	3	23	16	44	3
Llafurwr/gweithredwr cyffredinol (902)	1	79	15	2	1
Paentiwr/addurnwr (64)	3	39	52	4	0
Gweithredwr peiriannau/peirianwaith (181)	3	18	70	3	2
Plymwr (87)	1	23	46	21	2
Töwr (63)	0	43	42	8	1
Sgaffaldiwr (64)	3	36	42	8	6
Rheolwr safle (370)	5	5	9	19	44
Technegol (178)	8	9	15	13	23
Arall (79)	3	42	30	5	9

C13. What colour is your CSCS card?

Sylfaenau amhwysol mewn cromfachau: lle mae cerdyn CSCS yn cael ei dal

Nodyn: mae ffigurau mewn print trwm yn uwch yn ystadegol na'r cyfartaledd ar lefel hyder 95%

Crynoir y mathau o gardiau CSR a ddelir gan 3% o'r holl weithwyr adeiladu yn y tabl canlynol. Mae gwahaniaethau sylweddol yn 2025 o'i gymharu ag arolygon blaenorol, a soniodd cyfran uchel o weithwyr fod ganddynt gardiau 'Gwyn' nad oeddent wedi'u cynnwys yn y rhestr o gardiau CSR posibl.

Table 29: Lliw cerdyn CSR a ddelir dros amser

	2025 %	2022 %	2018/19 %	2015 %
Coch – Dan Brentisiaeth/Dan Hyfforddiant	2	3	5	7
Coch – Gweithredwr Peiriannau Hyfforddedig	<0.5	1	1	2
Coch – Goruchwyliwr/Rheolwr Rhai Dan Hyfforddiant ar gyfer is-raddedigion/graddedigion diweddar	1	3	2	1
Gwyrdd – Gweithredwr Adeiladu (ar gyfer gweithwyr safle cyffredinol)	10	31	29	29
Glas – Gweithredwr/Crefftwr	12	25	20	11
Glas – Gweithredwr Peiriannau	3	10	5	7
Glas – Sgaffaldiwr Sylfaenol	1	<0.5	<0.5	4
Aur – Cerdyn Crefftwr/Goruchwyliwr	14	20	26	29
Aur – Sgaffaldiwr Uwch	1	2	1	1
Platinwm – Cerdyn Rheolwr	6	1	2	2
Du – Cerdyn Uwch Reolwyr	2	1	3	1
Arall	41	0	4	5
Ansicr	8	3	3	2
Sylfaen amhwysol	287	284	176	220

C13. What colour is your CSR card?

Sylfaenau amhwysol: lle mae cerdyn CSR yn cael ei dal

Cymwysterau adeiladu a ddelir

Gofynnwyd i'r ymatebwyr am y cymwysterau oedd ganddynt a oedd yn uniongyrchol gysylltiedig ag adeiladu ar ôl gadael addysg amser llawn a dechrau eu swydd gyntaf go iawn ym maes adeiladu.

Ar y cyfan, mae tri chwarter (75%) yn nodi nad oedd ganddynt unrhyw gymwysterau ffurfiol yn ymwneud ag adeiladu pan ddechreuon nhw weithio yn y diwydiant adeiladu gyntaf, sy'n dychwelyd y mesur hwn i lefelau a welwyd yn 2018/19 (72%) a 2015 (75%), yn dilyn yr hyn y gellid ei ystyried yn anomaledd yn 2022, pan ddywed 47% nad oedd ganddynt unrhyw gymwysterau ffurfiol yn gysylltiedig ag adeiladu pan ddechreuon nhw weithio yn y diwydiant adeiladu gyntaf.

Mae gweithwyr yn y De-ddwyrain yn sylweddol fwy tebygol na'r cyfartaledd o nodi bod ganddynt gymwysterau ffurfiol yn gysylltiedig ag adeiladu pan ddechreuon nhw weithio yn y diwydiant adeiladu gyntaf (46% o'i gymharu â chyfartaledd o 21%), tra bod y rhai yn y rhanbarthau/gwledydd canlynol yn fwy tebygol na'r cyfartaledd (75%) o nodi nad oedd ganddynt unrhyw gymwysterau ffurfiol cyn ymuno â'r diwydiant:

- Gogledd Iwerddon (96%)
- Dwyrain Canolbarth Lloegr (92%)
- Gogledd-ddwyrain (92%)
- Dwyrain Lloegr (90%)
- Gorllewin Canolbarth Lloegr (80%)

Mae'r gyfran sy'n dweud bod ganddynt gymwysterau ffurfiol yn ymwneud ag adeiladu pan ddechreuon nhw weithio yn y diwydiant adeiladu yn parhau i fod yn uwch ymhlith gweithwyr iau (27% o'r rhai o dan 25 oed, o'i gymharu â 20% o'r rhai 25+ oed).

Mae gweithwyr adeiladu o ethnigrwydd lleiafrifol yn fwy tebygol na gweithwyr gwyn o nodi bod ganddynt gymwysterau ffurfiol pan ddechreuon nhw weithio gyntaf (31% o'i gymharu â 19%), fel y mae gweithwyr asiantaeth (37%) a gweithwyr hunangyflogedig (24%, o'i gymharu â 17% o'r rhai sy'n cael eu cyflogi'n uniongyrchol).

Yn ôl crefft/galwedigaeth gyfredol, mae cyfran y gweithwyr a ddechreuodd eu gyrfaedd adeiladu heb unrhyw gymwysterau ffurfiol ar ei huchaf ymhlith towyr (87%), plastrwyr (86%), gweithredwyr peiriannau/peirianwaith (85%), sgaffaldwyr (84%), llafurwyr/gweithredwyr cyffredinol (83%) a'r rhai mewn crefftau eraill (88%).

I'r gwrthwyneb, mae'r rhai mewn crefftau technegol (34%), rheolwyr safle (32%), trydanwyr (31%) a seiri coed/seiri dodrefn (29%) yn fwy tebygol na'r cyfartaledd o nodi bod ganddynt gymwysterau ffurfiol pan ddechreuon nhw yn y diwydiant gyntaf.

Ar ôl cael eu holi am y cymwysterau cysylltiedig ag adeiladu oedd ganddynt pan ddechreuon nhw eu gyrfa gyntaf, gofynnwyd i bob gweithiwr pa gymwysterau ffurfiol eraill sy'n berthnasol i adeiladu y maent wedi'u hennill ers dechrau yn y diwydiant. Drwy gyfuno'r ymatebion i'r ddau gwestiwn hyn, gellir deillio'r lefel uchaf o gymhwyster adeiladu a ddelir adeg y cyfweliad (gan gynnwys y math o gymhwyster, pwnc y cymhwyster, a'i lefel).

Am y tro cyntaf yn arolwg 2025, gofynnwyd i ymatebwyr ddefnyddio rhestrau gwymbo i'w helpu i nodi'r math, y pwnc a'r lefel berthnasol o gymhwyster. Cyn hyn, casglwyd y cwestiynau hyn heb eu hannog, a'u codio o ymateb agored. Er bod y dull hwn yn cynyddu lefel y cywirdeb yn y data a gasglwyd, nid yw'n ddoeth cymharu â fersiynau blaenorol o'r arolwg, lle'r oedd data yn seiliedig ar ymateb agored.

Ar y cyfan, roedd gan 52% o'r holl weithwyr adeiladu ryw fath o gymhwyster sy'n gysylltiedig ag adeiladu ar adeg y cyfweliad, ac mae hyn yn cynyddu o 38% o'r rhai 16 i 19 oed i 61% o'r rhai 45 oed neu hŷn. Mae gweithwyr hunangyflogedig yn fwy tebygol na'r cyfartaledd o feddu ar gymhwyster sy'n gysylltiedig ag adeiladu (60%).

Table 30: Cyfran y gweithwyr sydd â chymwysterau penodol i adeiladu

	Canrannau rhes	2025 %
Cyfanswm	DU (3,611)	52
Oedran	16 i 19 oed (185)	38
	20 i 24 oed (393)	52
	25 i 44 oed (1,904)	50
	45+ oed (1,091)	61
Ethnigrwydd	Gwyn Prydeinig (2,615)	55
	Gwyn Arall (587)	47
	Ethnigrwydd lleiafrifol (348)	47
Amser yn y diwydiant adeiladu	Llai na blwyddyn (239)	40
	1 i 2 flynedd (232)	35
	2 i 5 mlynedd (565)	36
	5+ mlynedd (2,566)	59
Math o gyflogaeth	Wedi'i gyflogi'n uniongyrchol (2,221)	51
	Hunangyflogedig (1,159)	56
	Asiantaeth (210)	49
Lleoliad cyn gweithio yn y sector adeiladu yn y DU	Dinesydd y DU/Gweriniaeth Iwerddon (3,485)	53
	Gweithiwr mudol (126)	43

C15. What construction-related qualifications did you hold when you got your first proper job in construction? / C16. What, if any, FORMAL qualifications that are relevant to construction have you gained since starting work in the industry?

Sylfaenau amhwysol mewn cromfachau: yr holl ymatebwyr

Nodyn: mae ffigurau mewn print trwm yn uwch yn ystadegol na'r cyfartaledd ar lefel hyder 95%

Mae cyfran y gweithwyr sydd â chymwysterau yn uwch na'r cyfartaledd yn y rhanbarthau canlynol:

- De-ddwyrain (70%)
- Swydd Efrog a'r Humber (60%)

Mae cyfran y gweithwyr sydd â chymwysterau yn is na'r cyfartaledd yn y rhanbarthau canlynol:

- Gogledd-ddwyrain (32%)
- Dwyrain Canolbarth Lloegr(36%)
- Dwyrain Lloegr (43%)
- Llundain (43%)

Mae cyfran y gweithwyr sydd â chymwysterau yn uwch na'r cyfartaledd ymhlith y rhai sydd ar hyn o bryd yn y crefftai/galwedigaethau canlynol:

- Rheolwyr safle 81%)
- Crefftai technegol (73%)
- Plymwyr (72%)
- Trydanwyr (70%)
- Gosodwyr brics (63%)
- Saer coed/saer dodrefn (61%)
- Gweithredwyr peiriannau/peirianwaith (58%)

Mae cyfran y gweithwyr sydd â chymwysterau yn is na'r cyfartaledd ymhlith y rhai sydd ar hyn o bryd yn y crefftai/galwedigaethau canlynol:

- Llafurwyr/gweithredwyr cyffredinol (27%)
- Paentwyr/addurnwyr (37%)
- Crefftai eraill (40%)

Math o gymwysterau adeiladu a ddelir

Yn seiliedig ar y cymwysterau oedd gan weithwyr pan ddechreuon nhw weithio yn y diwydiant adeiladu gyntaf, ac unrhyw rai maen nhw wedi'u hennill ers hynny, y cymwysterau sydd fwyaf tebygol o fod gan weithwyr adeiladu yw cymwysterau NVQ/SVQ (38%).

Er na ellir gwneud cymariaethau uniongyrchol ag arolygon blaenorol, mae hyn yn adlewyrchu'r math mwyaf cyffredin o gymhwyster a ddelir.

Mae tua un o bob deg (8%) yn meddu ar *City and Guilds*, ac mae gan un o bob ugain brentisiaeth neu radd (5% y ddau).

Table 31: Prif fath o gymhwyster a ddelir

	2025 %
NVQ/SVQ	38
<i>City and Guilds</i>	8
Prentisiaeth	5
Gradd	5
HNC/HND/BTEC Uwch	3
Dyfarniad Adeiladu	1
Arall	6
Sylfaenau amhwysol	3,611

C15. *What construction-related qualifications did you hold when you got your first proper job in construction?* / C16. *What, if any, FORMAL qualifications that are relevant to construction have you gained since starting work in the industry?*

Sylfaenau amhwysol: yr holl ymatebwyr

O ran y lefel uchaf o gymhwyster a ddelir, mae gan 6% gymhwyster Lefel 1, 20% Lefel 2, 10% Lefel 3 a 16% Lefel 4 neu uwch.

Hyfforddiant ffurfiol ychwanegol

Hunanasesiad o'r angen am sgiliau sylfaenol

O ystyried yr angen i weithwyr adeiladu ddarllen cyfarwyddiadau a chofnodi gwybodaeth, mae'n bwysig sicrhau bod gan y gweithlu'r sgiliau sydd eu hangen i gyflawni'r tasgau hyn. Felly, gofynnodd yr arolwg i bob gweithiwr a ydynt yn gweld yr angen am hyfforddiant mewn unrhyw un o restr o sgiliau sylfaenol penodol i'w helpu gyda'u gwaith.

Ar y cyfan, mae un o bob pump (20%) o weithwyr yn credu y byddent yn elwa o ryw fath o hyfforddiant mewn sgiliau sylfaenol, yn unol â 2022 (19%). Mae'r anghenion sgiliau penodol hefyd yn unol iawn â 2022, a welodd gynnydd dros 2018/19, gydag un o bob deg (10%) yn credu y byddent yn elwa o hyfforddiant mewn darllen, a chyfran debyg mewn siarad Saesneg (9%), ysgrifennu (8%) a mathemateg (8%).

Dim ond 2% sy'n sôn am yr angen am hyfforddiant mewn sgiliau digidol.

Table 32: Hunanasesiad o'r angen am hyfforddiant mewn sgiliau sylfaenol dros amser

	2025 %	2022 %	2018/19 %	2015 %	2012 %
UNRHYW	20	19	11	14	20
Darllen	10	9	5	6	9
Siarad Saesneg	9	9	6	7	8
Ysgrifennu	8	7	5	6	9
Mathemateg	8	6	5	6	10
Sgiliau digidol	2	4	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol
Sylfaenau amhwysol	3,611	3,005	4,048	4,771	4,933

C37. Construction jobs need workers to read instructions and record information more than they used to. Would any training in any of the following help you with your work?

Sylfaenau amhwysol: yr holl ymatebwyr

Y rhai o dan 25 oed sydd fwyaf tebygol o nodi bod angen hyfforddiant mewn sgiliau sylfaenol – 32% o'r rhai 16 i 19 oed a 28% o'r rhai 20 i 24 oed. Y ddau grŵp oedran hyn sydd fwyaf tebygol o sôn am angen hyfforddiant mewn mathemateg (18% a 14% yn y drefn honno), ond mae o leiaf un o bob deg o'r ddau grŵp yn nodi bod angen hyfforddiant ym mhob un o'r sgiliau eraill, ac eithrio sgiliau digidol.

Table 33: Hunanasesiad o'r angen am hyfforddiant mewn sgiliau sylfaenol yn ôl oedran

	Cyfanswm %	16 oed %	19 i 20 oed %	24 i 25 oed %	44 i 45+ oed %
UNRHYW	20	32	28	20	16
Darllen	10	16	13	10	7
Siarad Saesneg	9	11	13	11	5
Ysgrifennu	8	14	10	9	6
Mathemateg	8	18	14	7	6
Sgiliau digidol	2	4	3	2	1
Sylfaenau amhwysol	3,611	185	393	1,904	1,091

37. Construction jobs need workers to read instructions and record information more than they used to. Would any training in any of the following help you with your work?

Sylfaenau amhwysol: yr holl ymatebwyr

Nodyn: mae'r ffigurau mewn print trwm yn uwch yn ystadegol na'r cyfartaledd ar lefel hyder 95%

Mae llawer o ranbarthau yn unol â'r cyfartaledd yn hyn o beth, fel y dangosir yn nhabl 34, ond mae rhai gwahaniaethau rhanbarthol:

- mae gweithwyr yn y De-ddwyrain ddwywaith yn fwy tebygol na'r cyfartaledd (40%) o gredu bod angen rhywfaint o hyfforddiant arnynt mewn sgiliau sylfaenol, yn enwedig mewn perthynas â Darllen (20%), Ysgrifennu (19%) a Siarad Saesneg (19%)
- mae tri o bob deg (31%) o weithwyr yng Ngogledd Iwerddon yn credu bod angen rhywfaint o hyfforddiant arnynt mewn sgiliau sylfaenol, yn fwyaf nodedig Mathemateg (19%), Sgiliau Digidol (19%) ac Ysgrifennu (15%)
- mae chwarter (27%) o weithwyr yn y De-orllewin yn credu bod angen rhywfaint o hyfforddiant arnynt mewn sgiliau sylfaenol, gyda chyfran uwch na'r cyfartaledd yn sôn am Ddarllen (14%) a Mathemateg (16%)
- er nad ydynt yn fwy tebygol na'r cyfartaledd yn gyffredinol, mae gweithwyr yn Llundain yn fwy tebygol na'r cyfartaledd o sôn am yr angen am hyfforddiant mewn Siarad Saesneg (16%), Darllen (14%) ac Ysgrifennu (13%)

Table 34: Hunanasesiad o'r angen am hyfforddiant mewn sgiliau sylfaenol yn ôl rhanbarth

Canrannau rhes	UNRHYW %	Darllen %	Ysgrifennu %	Siarad Saesneg %	Mathemateg %	Sgiliau Digidol %
Cyfanswm (3,611)	20	10	8	9	8	2
Dwyrain Canolbarth Lloegr (300)	10	6	5	7	2	0
Dwyrain Lloegr (300)	4	1	1	3	<0.5	0
Llundain (302)	22	14	13	16	9	1
Gogledd-ddwyrain (301)	<0.5	<0.5	<0.5	<0.5	<0.5	<0.5
Gogledd-orllewin (300)	12	7	4	4	4	1
De-ddwyrain (300)	40	20	19	19	12	3
De-orllewin (302)	27	14	11	10	16	2
Gorllewin Canolbarth Lloegr (300)	16	6	5	7	3	1
Swydd Efrog a'r Humber (304)	24	11	8	11	9	<0.5
Gogledd Iwerddon (300)	31	11	15	12	19	19
Yr Alban (300)	20	8	6	7	9	0
Cymru (302)	22	9	9	8	9	2

C37. *Construction jobs need workers to read instructions and record information more than they used to. Would any training in any of the following help you with your work?*

Sylfaenau amhwysol: yr holl ymatebwyr

Nodyn: mae ffigurau mewn print trwm yn uwch yn ystadegol na'r cyfartaledd ar lefel hyder 95%

Fel oedd yn wir yn 2022, mae rhai is-grwpiau o weithwyr adeiladu yn fwy tebygol o gredu y byddent yn elwa o rywfaifaint o hyfforddiant mewn sgiliau sylfaenol:

- gweithwyr o grŵp ethnig lleiafrifol (33%) a gweithwyr Gwyn eraill (35%), o'i gymharu â 15% o weithwyr Gwyn Prydeinig

- gweithwyr mudol (47%), ar draws pob sgil, ond yn benodol gyda Siarad Saesneg (38%)

Astudiaeth bresennol ar gyfer cymwysterau adeiladu ychwanegol

Ar y cyfan, mae tua un o bob deg (9%) o weithwyr adeiladu ar hyn o bryd yn gweithio tuag at gymwysterau ffurfiol sy'n berthnasol i'r diwydiant adeiladu, sef y lefel isaf a gofnodwyd ers 2012 (13% yn 2022, 15% yn 2018/19, 12% yn 2015 ac 11% yn 2012).

Fel mewn arolygon blaenorol, mae'r tebygolrwydd bod gweithwyr yn gweithio tuag at gymwysterau ar hyn o bryd yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd ymhlith y gweithwyr ieuengaf (43% o bobl 16 i 19 oed a 18% o bobl 20 i 24 oed). Fodd bynnag, ymhlith y rhai rhwng 20 a 44 oed y gwelwyd y gostyngiadau mwyaf: mae 18% o bobl rhwng 20 a 24 oed yn gweithio tuag at gymwysterau ar hyn o bryd o'i gymharu â 24% yn 2022, ac mae 7% o bobl rhwng 25 a 44 oed yn gwneud hynny, o'i gymharu ag 11% yn 2022.

Mae'r patrwm hwn (yn annisgwyl) yn cael ei efelychu gan hyd yr amser yn y diwydiant. Mae'r rhai sydd wedi bod yn y diwydiant am hyd at 5 mlynedd yn fwy tebygol na'r rhai sydd wedi bod yn y diwydiant am hirach o fod yn gweithio tuag at gymhwyster (29% o'r rhai yn y diwydiant am hyd at flwyddyn, 19% o'r rhai ynddo am 1 i 2 flynedd a 12% o'r rhai ynddo am 2 i 5 mlynedd, o'i gymharu â 6% o'r rhai yn y diwydiant am hirach). Gwelwyd y gostyngiadau mwyaf ymhlith y rhai sydd wedi bod yn y diwydiant am 1 i 2 flynedd (o 27% yn 2022 i 19% yn 2025) a'r rhai sydd wedi bod ynddo am 2 i 5 mlynedd (o 20% i 12%). Yn wahanol i flynyddoedd blaenorol, nid oes unrhyw wahaniaethau sylweddol yn ôl y math o gontract.

Table 35: Cyfran sy'n gweithio tuag at gymwysterau adeiladu ychwanegol dros amser

Canrannau rhes		2025 %	2022 %	2018/19 %	2015 %
Cyfanswm	DU (3,611)	9	13	15	12
Oedran	16 i 19 oed (185)	43	43	55	57
	20 i 24 oed (393)	18	24	24	23
	25 i 44 oed (1,904)	7	11	14	10
	45+ oed (1,091)	4	5	6	4
Hyd eu cyfnod yn y diwydiant adeiladu	<1 flwyddyn (239)	29	28	38	31
	1 i 2 flynedd (232)	19	27	31	28
	2 i 5 mlynedd (565)	12	20	25	23
	5+ oed (2,566)	6	8	9	7
Math gcontract	o Wedi'u cyflogi'n uniongyrchol (2,221)	9	15	20	16
	Hunangyflogedig (1,159)	9	10	9	8
	Asiantaeth (210)	6	8	11	10

C18. Are you currently working towards any formal qualifications relevant to the construction industry?

Sylfaenau amhwysol ar gyfer 2025 mewn cromfachau: yr holl ymatebwyr

Nodyn: Mae'r ffigurau mewn print trwm yn uwch yn ystadegol na'r cyfartaledd ar lefel hyder 95%

Mae amrywiadau hefyd yn amlwg yn ôl rôl swydd bresennol, gyda thrydanwyr (21%), gosodwyr brics (17%) a rheolwyr safle (12%) yn fwy tebygol na'r cyfartaledd a llafurwyr/gweithredwyr cyffredinol (3%) yn llai tebygol na'r cyfartaledd o fod yn gweithio tuag at gymwysterau ar hyn o bryd.

O'r rhai sy'n astudio ar gyfer cymhwyster ar hyn o bryd (ac a roddodd ymateb) y math mwyaf cyffredin o gymhwyster yw NVQ/SVQ (57%). O ran pwnc y cymwysterau y gweithir tuag atynt, adeiladu/rheoli prosiectau/safleoedd a gosod brics/gwaith brics (17%) y ddau, ac yna gosod trydanol/peirianeg (15%) a gwaith coed/saerniaeth (8%) yw'r rhai mwyaf cyffredin.

Cymwysterau a hyfforddiant goruchwyllo a rheoli

Mae bron i dri o bob deg (28%) o weithwyr adeiladu yn cyflawni rôl goruchwyllo neu reoli ar eu safle.

Ymhlith y rhai nad ydynt yn cyflawni rolau goruchwyllo/rheoli ar hyn o bryd ac nad ydynt wedi cael y rôl hon o'r blaen, mae 15% eisiau dod yn oruchwylwr neu'n rheolwr

yn y dyfodol, gan barhau â'r dirywiad ers 2018/19, lle'r oedd 24% eisiau. Mae 5% arall wedi cael rôl goruchwyllo/rheoli o'r blaen ac eisiau dychwelyd i'r statws hwnnw.

Mae un o bob wyth (12%) o weithwyr adeiladu nad ydynt yn rheolwyr/goruchwylwyr ar hyn o bryd yn ansicr ynghylch a hoffent fod yn un yn y dyfodol, llai nag a adroddwyd yn 2022 (18%).

Nid yw dau o bob tri (68%) o weithwyr adeiladu a holwyd eisiau bod yn rheolwr neu'n oruchwylwr, sy'n gynydd sylweddol ar y 59% a deimlai fel hyn yn 2022, ac mae'n parhau â thuedd ar i fyny ar y mesur hwn. Am y tro cyntaf eleni, rhannwyd y mesur hwn yn ôl a oedd gweithwyr wedi cyflawni rolau goruchwyllo/rheoli o'r blaen ai peidio. Ar y sail hon, nid oedd 56% wedi gwneud hynny o'r blaen, ac roedd 12% wedi gwneud hynny.

Yn ôl oedran, y rhai 16 i 24 oed sydd fwyaf tebygol o fod eisiau bod yn oruchwylwyr/rheolwyr – 32% o'r rhai 16 i 19 oed a 28% o'r rhai 20 i 24 oed – tra nad yw 80% o'r rhai 45 oed neu hŷn yn dymuno gwneud hynny.

Mae gweithwyr o grŵp ethnig lleiafrifol yn sylweddol fwy tebygol na gweithwyr Gwyn o fod eisiau bod yn oruchwylwyr/rheolwyr, p'un a ydynt wedi bod mewn swyddi o'r fath o'r blaen ai peidio (31% o'i gymharu â 19%), ac nid yw hyn oherwydd bod ganddynt broffil iau na gweithwyr Gwyn (mae 15% o weithwyr Gwyn rhwng 16 a 24 oed, o'i gymharu â 13% o'r rhai o ethnigrwydd lleiafrifol).

Mae gweithwyr asiantaeth (29%) a gweithwyr hunangyflogedig (20%) yn fwy tebygol o fod eisiau bod yn oruchwylwyr/rheolwyr na'r rhai sy'n cael eu cyflogi'n uniongyrchol (10%).

Nid yw tri chwarter (78%) o'r rhai heb gymwysterau eisiau dod yn oruchwylwr na rheolwr, tra bod y rhai â chymwysterau Lefel 1 a Lefel 4 yn fwyaf tebygol o fod eisiau gwneud hynny (39% a 40% yn y drefn honno).

Table 36: A yw gweithwyr eisiau bod yn oruchwylwyr/rheolwyr yn y dyfodol

Canrannau rhes		Ydw, heb ei wneud o' r blaen %	Ydw, ac wedi' i wneud o' r blaen %	Nac ydw, heb ei wneud o' r blaen %	Nac ydw, ac wedi' i wneud o' r blaen %	Efallai / mae' n dibynnu%
Cyfanswm 2025 (2,530)		15	5	56	12	12
Oedran	16 i 19 oed (175)	32	0	38	4	26
	20 i 24 oed (328)	28	2	45	5	20
	25 i 44 oed (1,368)	15	5	60	9	10
	45+ oed (639)	5	7	56	24	7
Ethnigrwydd	Gwyn (2,229)	14	5	57	13	12
	Ethnigrwydd lleiafrifol (270)	26	5	51	7	11
Hyd eu cyfnod yn y diwydiant adeiladu	<1 flwyddyn (220)	28	4	39	5	24
	1 i 2 flynedd (208)	35	1	48	3	13
	2 i 5 mlynedd (495)	20	3	60	5	13
	5+ mlynedd (1,603)	10	6	57	17	10
Math o contract	Wedi'i gyflogi'n uniongyrchol (1,488)	10	5	63	13	10
	Hunangyflogedig (845)	20	5	48	11	15
	Asiantaeth (181)	29	5	40	13	12
Lefel cymhwyster uchaf	Dim cymwysterau (1,418)	10	3	68	10	10
	Lefel 1 (147)	34	5	39	11	11
	Lefel 2 (559)	19	5	47	16	13
	Lefel 3 (211)	21	11	38	13	18
	Lefel 4+ (125)	22	18	20	25	16

C9. Do you want to become a supervisor or manager within construction in the future?

Sylfaenau amhwysol ar gyfer 2025 mewn cromfachau: lle nad ydynt yn cyflawni rolau goruchwyliwr/rheoli ar y safle

Nodyn: mae ffigurau mewn print trwm yn uwch yn ystadegol na'r cyfartaledd ar lefel hyder 95%

Mae tri o bob deg o weithwyr adeiladu a holwyd (31% o'i gymharu â 33% yn 2022, 34% yn 2018/19 a 25% yn 2015) a phedwar o bob pump o'r rhai sydd â neu a fu â rhyw fath o gyfrifoldebau goruchwyllo neu reoli (83% o'i gymharu ag 80% yn 2022, 81% yn 2018/19, 73% yn 2015 a 71% yn 2012) wedi derbyn hyfforddiant ffurfiol a gynlluniwyd i wella gwybodaeth neu sgiliau rheoli neu oruchwyllo.

Mae'r gyfran sydd wedi ymgymryd ag unrhyw hyfforddiant rheoli neu oruchwyllo yn cynyddu i ychydig dros ddau o bob pump o weithwyr adeiladu 45 oed a hŷn (42%, o'i gymharu â 41% yn 2022). Mae'r rhan fwyaf o reolwyr safle wedi derbyn hyfforddiant ffurfiol a gynlluniwyd i wella gwybodaeth neu sgiliau rheoli neu oruchwyllo (93%). O ran y mathau o hyfforddiant goruchwyllo/rheoli a wneir, mae SMSTS (Cynllun Hyfforddi Diogelwch Rheolwyr Safle) yn parhau i gael ei grybwyll amlaf gan y rhai sydd wedi ymgymryd ag unrhyw hyfforddiant (63%), ac i raddau mwy nag yr oedd yn wir yn 2022 (43%).

Cyrsiau Goruchwylwyr Diogelwch Safle (32%) a hyfforddiant mewnol (25%) yw'r mathau nesaf mwyaf cyffredin o hyfforddiant, yn unol â 2022 (31% a 24% yn y drefn honno), a gyda fersiynau blaenorol o'r arolwg.

Table 37: Mathau o hyfforddiant rheoli/goruchwyllo a ymgwymerwyd dros amser

	2025 %	2022 %
SMSTS	63	43
Cwrs Goruchwylwyr Diogelwch Safle	32	31
Hyfforddiant mewnol	25	24
NVQ Lefel 6 / SCQF Lefel 10 - Rheoli safleoedd adeiladu	16	9
NVQ Lefel 3 / SCQF 6 - Goruchwyllo Gwaith Galwedigaethol	11	10
NVQ Lefel 4 / SCQF - Lefel 7 Goruchwyllo Safleoedd Adeiladu	11	4
Cyrsiau byr Rheoli Prosiectau	8	5
IOSH	6	6
NVQ Lefel 7 / SCQF Lefel 11 - Rheolaeth Uwch Adeiladu	5	Na
Goruchwylwr Safle CIOB	4	5
Rheoli Diogelwch yn y Diwydiant Adeiladu (ar gyfer CSRs)	4	6
Hyfforddiant a Datblygu Rheolaeth Oruchwylol	4	4
Cynllun Addysg a Hyfforddiant Rheoli Safle CIOB	2	6
Hyfforddiant Aseswyr a Dilyswyr	1	6
Hyfforddiant Prif Swyddogion ac Arweinwyr Tîm	1	5
Diogelwch ar gyfer Uwch Weithredwyr (ar gyfer CSR)	1	2
Arall	7	6
Sylfaenau amhwysol	1,059	974

C11. Which of the following training to improve your managerial or supervisory knowledge or skills have you received?

Sylfaenau amhwysol: lle derbyniwyd hyfforddiant ffurfiol a gynlluniwyd i wella gwybodaeth neu sgiliau rheoli neu oruchwyllo

Lefelau sgiliau cyffredinol

Mae trosolwg o lefelau cymwysterau a sgiliau gweithwyr adeiladu a arolygwyd wedi'i gasglu trwy gyfuno data o wahanol fesurau ar wahân ac fe'i cyflwynir yn nhabl 38 isod.

Oherwydd newidiadau yn y ffordd y casglwyd y wybodaeth am gymwysterau yn 2025, nid ydym wedi cynnwys cymariaethau ag iteriadau blaenorol o'r arolwg.

Mae gan y mwyafrif helaeth o weithwyr adeiladu (96%) gymhwyster a/neu gerdyn/tystysgrif sgiliau sy'n gysylltiedig ag adeiladu (neu roeddent yn gweithio tuag at gymhwyster ar adeg y cyfweiliad): dim ond 3% o'r rhai a gyfwelwyd na allai ddweud eu bod o leiaf yn gweithio tuag at gael cerdyn CSCS (neu debyg) neu gymhwyster adeiladu.

Mae gan draean o'r gweithlu (36%) gerdyn/tystysgrif sgiliau ond nid oes ganddynt unrhyw gymhwyster adeiladu arall. Mae un o bob deg (9%) yn gweithio tuag at gymhwyster.

Table 38: Crynodeb statws cymhwyster

	2025 %
Yn meddu ar gymhwyster adeiladu ffurfiol neu gerdyn/tystysgrif sgiliau neu'n gweithio tuag at gymhwyster	96
Yn meddu ar gymhwyster adeiladu ffurfiol neu gerdyn/tystysgrif sgiliau	96
Yn meddu ar gerdyn/tystysgrif sgiliau	93
Yn meddu ar gerdyn/tystysgrif sgiliau ond dim cymhwyster arall	36
Yn gweithio tuag at gymhwyster	9
Dim o'r uchod	3
Sylfaenau amhwysol	3,611
Pob cwestiwn ynghylch cymwysterau	
Sylfaenau amhwysol: yr holl ymatebwyr	

Yn seiliedig ar yr holl gwestiynau sy'n ymwneud â chymwysterau, mae'n bosibl cyfrifo lefel cymhwyster uchaf pob gweithiwr, ac mae tabl 39 yn crynhoi lefel cymhwyster uchaf gweithwyr adeiladu, yn gyffredinol ac yn ôl galwedigaeth.

Ar y cyfan, mae gan bron i hanner (46%) gymwysterau sy'n cyfateb i Lefel 2 neu uwch.

Yn ôl galwedigaeth, rheolwyr safle a'r rhai mewn crefftau technegol sydd fwyaf tebygol o fod â'r lefel uchaf o gymwysterau, gyda 61% a 54% yn y drefn honno yn dal Lefel 4 neu uwch.

Yn ogystal â'r ddwy alwedigaeth hyn, mae plymwyr (66%), trydanwyr (69%), gosodwyr brics (56%), a seiri coed/seiri dodrefn (56%) yn fwy tebygol na'r cyfartaledd (46%) o fod â chymwysterau sy'n cyfateb i Lefel 2 neu uwch.

Table 39: Lefel cymhwyster presennol fesul galwedigaeth

Canrannau rhes	Dim cymwysterau ffurfiol %	Lefel 1 %	Lefel 2 %	Lefel 3 %	Lefel 4+ %	Arall %
Cyfanswm (3,611)	44	6	20	10	16	3
Rheolwr safle (444)	15	2	7	12	61	4
Technegol (110)	23	1	12	6	54	4
Plymwr (117)	24	6	40	13	13	4
Trydanwr (185)	27	1	17	46	6	3
Gosodwr brics (257)	35	8	39	11	6	2
Saer coed/saer dodrefn (247)	37	5	33	15	8	2
Gweithredwr peiriannau/peirianwaith(257)	39	8	37	7	6	3
Sgaffaldiwr (109)	43	6	26	15	6	4
Gosodwr leinin sych (96)	50	6	35	5	3	<0.5
Plastrwr (62)	51	1	34	11	4	0
Banciwr (57)	51	9	16	7	9	8
Töwr (79)	53	6	29	10	2	0
Arall (108)	59	6	16	7	11	1
Paentiwr/addurnwr (91)	61	5	21	4	7	2
Llafurwr/gweithredwr cyffredinol (1,048)	69	9	12	4	3	4

C37. Construction jobs need workers to read instructions and record information more than they used to. Would any training in any of the following help you with your work?

Sylfaenau amhwysol: yr holl ymatebwyr

Nodyn: mae'r ffigurau mewn print trwm yn ystadegol uwch na'r cyfartaledd ar lefel hyder 95%.

Symudedd daearyddol

Trosolwg

Mae'r adran hon o'r adroddiad ar symudedd daearyddol yn helpu i nodi pa ranbarthau/gwledydd yn y DU sy'n 'fewnforwyr' neu'n 'allforwyr' net o weithwyr adeiladu, yn ogystal â pha elfennau o'r gweithlu adeiladu sydd fwyaf symudol (yn seiliedig ar ranbarth/gwlad breswyl, rhanbarth/gwlad geni a math o gontract). Y mesurau sydd wedi'u cynnwys yn yr adran hon yw:

- rhesymau dros weithio yn y lleoliad presennol
- cymariaethau o'r lleoliad presennol â rhanbarth/gwlad wreiddiol y gweithwyr
- cyfran o yrfa gweithwyr adeiladu sydd wedi'i threulio'n gweithio yn y rhanbarth/gwlad bresennol
- a yw gweithwyr yn cymudo'n ddyddiol i'w safle presennol neu a ddefnyddir llety dros dro
- milltiroedd a deithir i'r safle bob dydd
- a fydd eu safle nesaf o fewn pellter cymudo neu a fydd angen llety dros dro arno

Hanes gwaith yn y rhanbarth/gwlad bresennol

Gofynnwyd i bob gweithiwr beth wnaeth iddynt benderfynu gweithio yn y rhanbarth/gwlad y maent yn gweithio ynddi ar hyn o bryd.

Fel sydd wedi bod yn wir ers 2018/19, mae tua hanner (51%) yn nodi bod eu cyflogwr wedi eu hanfon yma.

Bu gostyngiad sylweddol yn y gyfran sy'n dweud eu bod wedi tyfu i fyny yn y lleoliad hwn/wedi byw yno erioed, o 46% yn 2022 i 22% yn yr arolwg diweddaraf, ac mae hyn yn bennaf o ganlyniad i gynnydd yn y gyfran sy'n dweud ei fod am resymau teuluol, o 5% yn 2022 i 19% yn yr arolwg diweddaraf.

Bu cynnydd hefyd, er yn llawer llai amlwg, yn y cyfrannau sy'n dweud bod mwy o swyddi ar gael yn yr ardal (o 3% i 7%), ac mewn sôn am gyflog gwell (o 4% i 6%).

Table 40: Rhesymau dros ddewis gweithio yn y lleoliad presennol dros amser – wedi'i annog, ymateb lluosog.

	2025 %	2022 %	2018/19 %	2015 %
Anfonodd y cyflogwr chi yma	51	47	51	36
Fe wnaethoch chi dyfu i fyny yma/rydych chi wedi byw yma erioed	22	46	43	55
Rhesymau teuluol	19	5	5	6
Mae mwy o swyddi ar gael yn yr ardal hon	7	3	5	6
Mae gwaith adeiladu yn cael ei dalu'n well yn yr ardal hon	6	4	3	3
Daethoch i'r ardal i ymgymryd â'r swydd hon neu swydd arall	5	5	3	5
Eisiau symud i'r ardal oherwydd eich bod chi'n ei hoffi neu'n teimlo ei bod yn cynnig cyfleoedd ar gyfer ansawdd bywyd gwell	3	1	2	1
Rhagolygon dyrchafiad gwell yn yr ardal hon	2	1	1	1
Sylfaenau amhwysol	3,611	3,005	4,048	4,771

C28. What made you decide to come and work in this area?

Sylfaenau amhwysol: yr holl ymatebwyr

Fel sydd wedi bod yn wir mewn arolygon blaenorol, mae gwahaniaethau sylweddol yn ôl rhanbarth/gwlad yn y prif resymau dros weithio yn eu lleoliad presennol.

Mae cael eu magu yno yn cael ei grybwyll ar lefelau uwch na'r cyfartaledd gan weithwyr yng Ngogledd Iwerddon (67%), y De-orllewin (46%), Cymru (45%), Swydd Efrog a'r Humber (37%) a'r Alban (32%).

Mae cael eu hanfon yno gan eu cyflogwr yn cael ei grybwyll ar lefelau uwch na'r cyfartaledd gan weithwyr yng Ngogledd Ddwyrain Lloegr (100%), Dwyrain Canolbarth Lloegr (82%), Llundain (70%) a Dwyrain Lloegr (64%).

Mae gwahaniaethau nodedig eraill yn ôl rhanbarth/gwlad yn cynnwys:

- 85% o weithwyr yng Ngogledd Iwerddon a 43% o weithwyr yng Ngorllewin Canolbarth Lloegr yn sôn am resymau teuluol
- yng Ngogledd Iwerddon mae 24% o weithwyr yn dweud bod mwy o swyddi ar gael a 17% bod gwaith adeiladu yn cael ei dalu'n well

Table 41: Y pum prif reswm dros benderfynu gweithio yn eu rhanbarth/gwlad bresennol yn ôl rhanbarth/gwlad

Canrannau rhes	Wedi magu yma %	Anfonodd y cyflogwr chi yma%	Rhesyma u teuluol %	Mwy swyddi gael %	o Mae'r gwaith yn talu'n well %
Cyfanswm (3,622)	22	51	19	7	6
Dwyrain Canolbarth Lloegr (300)	5	82	12	1	2
Dwyrain Lloegr (300)	4	64	23	4	3
Llundain (302)	7	70	9	7	11
Gogledd-ddwyrain (301)	7	100	0	0	<0.5
Gogledd-orllewin (300)	23	53	17	6	5
De-ddwyrain (300)	20	47	17	10	8
De-orllewin (302)	46	23	24	6	5
Gorllewin Canolbarth Lloegr (300)	15	32	43	8	5
Swydd Efrog a'r Humber (304)	37	31	10	12	9
Gogledd Iwerddon (300)	67	16	85	24	17
Yr Alban (300)	32	49	7	3	10
Cymru (302)	45	42	17	7	5

C28. What made you decide to come and work in this area?

Sylfaenau amhwysol: yr holl ymatebwyr

Nodyn: mae ffigurau mewn print trwm yn ystadegol uwch na'r cyfartaledd ar lefel hyder 95%

Er bod cyfran y gweithwyr sydd wedi gweithio yn eu rhanbarth presennol drwy gydol eu gyrfa wedi lleihau, o 49% yn 2022 i 41% yn yr arolwg diweddaraf, bu cynnydd

cyfatebol yn y gyfran sy'n nodi eu bod yn gweithio yn eu rhanbarth presennol y rhan fwyaf o'r amser, o 34% yn 2022 i 41% yn yr arolwg diweddaraf.

Mae hyn yn golygu bod cyfran y gweithwyr sydd wedi gweithio yn eu rhanbarth presennol drwy gydol neu'r rhan fwyaf o'u gyrfa wedi aros yn sefydlog ar 81% (o'i gymharu ag 83% yn 2022), yn dilyn cynnydd dros 2018/19 (77%).

Table 42: Cyfran o yrfa gweithwyr adeiladu a weithiodd yn y rhanbarth/gwlad gyfredol dros amser

	2025 %	2022 %	2018/19 %	2015 %
Eich holl amser	41	49	44	44
Y rhan fwyaf ohono	41	34	33	36
Tua hanner eich amser	9	8	9	8
Cyfran fach o'ch amser	4	5	10	7
Ar y swydd hon yn unig (dyma'r safle cyntaf i chi fod iddo yn y rhanbarth/gwlad hon)	1	1	2	3
Ddim yn gwybod	3	3	1	2
Sylfaenau amhwysol	3,611	3,005	4,048	4,771

C26/C27. Since working in construction in the UK, how much time have you spent on sites in this region/nation?

Sylfaenau amhwysol: yr holl ymatebwyr

Nid yw'n syndod bod cyfran y gweithwyr sydd wedi treulio eu gyrfa gyfan yn y rhanbarth/gwlad bresennol yn lleihau gydag oedran, o 55% o'r rhai 16 i 24 oed i 39% o'r rhai 25 oed neu hŷn. Fodd bynnag, mae hyn yn parhau â thuedd ar i lawr ar gyfer pobl 16 i 24 oed, ac ymhlith y rhain roedd 60% wedi gweithio yn eu rhanbarth presennol am eu gyrfa gyfan yn 2022, o'i gymharu ag 81% yn 2018/19.

Mae hefyd yn parhau i fod yn uwch ymhlith gweithwyr Gwyn (42%) na gweithwyr o grŵp ethnig lleiafrifol (35%).

Mae yna hefyd rai amrywiadau eithaf sylweddol eto yn ôl rhanbarth/gwlad, gyda'r rhai sydd wedi'u lleoli yng Ngogledd Iwerddon (78%), yr Alban (58%), Cymru (54%), y De-orllewin (53%) a'r Gorllewin Canolbarth (51%) yn fwy tebygol na'r cyfartaledd o ddweud eu bod wedi treulio eu gyrfa gyfan yn y rhanbarth/gwlad bresennol hon.

Table 43: Cyfran y gweithwyr sydd wedi treulio eu holl amser yn eu rhanbarth/gwlad bresennol yn ôl rhanbarth/gwlad bresennol dros amser

Canrannau rhes	2025 %	2022 %	2018/19 %
Cyfanswm (3,622)	41	49	44
Dwyrain Canolbarth Lloegr 19 (300)		49	43
Dwyrain Lloegr (300)	35	50	27
Llundain (302)	34	43	43
Gogledd-ddwyrain (301)	22	38	48
Gogledd-orllewin (300)	41	46	55
De-ddwyrain (300)	30	47	32
De-orllewin (302)	53	50	43
Gorllewin Canolbarth Lloegr 51 (300)		45	36
Swydd Efrog a'r Humber 42 (304)		37	42
Gogledd Iwerddon (300)	78	38	57
Yr Alban (300)	58	76	76
Cymru (302)	54	61	60

C26/C27. Since working in construction in the UK, how much time have you spent on sites in this region/nation?

Sylfaenau amhwysol ar gyfer 2025 mewn cromfachau: yr holl ymatebwyr

Nodyn: mae ffigurau mewn print trwm yn uwch yn ystadegol na'r cyfartaledd ar lefel hyder 95%

O ran y rhanbarthau/gwledydd lle mae cyflogwyr presennol gweithwyr yn gweithredu, mae'r rhai yng Ngogledd Iwerddon (88%), yr Alban (77%) a'r De-orllewin (61%) yn fwy tebygol na'r cyfartaledd o gael cyflogwyr sy'n gweithredu yn y rhanbarth/gwlad hon yn unig, a'r rhai yn y Gogledd-ddwyrain (15%) a Dwyrain Canolbarth Lloegr (26%) yn llai tebygol.

Mae cael cyflogwyr sy'n gweithredu mewn rhanbarthau/gwledydd eraill yn fwy cyffredin ymhlith gweithwyr yng Ngogledd Iwerddon (80%), yn y De-ddwyrain (35%),

gan gynnwys 21% y mae eu cyflogwr yn gweithredu yn Llundain) a Swydd Efrog a'r Humber (31%).

